



CEREDIGION

CYNLLUN

GWEITHREDU

BIOAMRYWIAETH LLEOL

Partneriaeth Bioamrywiaeth Ceredigion

CEREDIGION

LOCAL BIODIVERSITY

ACTION PLAN

Ceredigion Biodiversity Partnership.



CEREDIGION

**CYNLLUN
GWEITHREDU
BIOAMRYWIAETH LLEOL**

**Cynhyrchwyd ar ran
Partneriaeth Bioamrywiaeth
Ceredigion**

Adain yr Arfordir a'r Cefn Gwlad
Adran y Gwasanaethau Amgylcheddol a Thai
Cyngor Sir Ceredigion
Penmorfa
Aberaeron
SA46 0PA

Medi 2002

CYNLLUN GWEITHREDU BIOAMRYWIAETH CEREDIGION

Mae Ceredigion yn gyfoethog o ran ei chynefinoedd a'i bywyd gwylt; mae ei bioamrywiaeth yn elfen bwysig o'r hyn sy'n ei gwneud yn unigryw. Mae'r rhostiroedd (sydd hefyd yn gynefin i Frith y Gors); yr aberoedd a'r tiroedd gwlyb sydd o bwys rhyngwladol sy'n gynefin i adar hela ac adar hirgoes a'r coetiroedd derw oll yn cyfrannu at fioamrywiaeth y Sir. Mae Ceredigion hefyd yn un o gadarnleoedd y Barcud Coch a'r Brain Coesgoch. Mae arfordir Bae Ceredigion o bwys i adar y môr tra bo'r môr yn gynefin i'r Dolffiniaid Trwynbwl, Llamidyddion yr Harbwr a Morloi Llwyd yr Iwerydd.

Mae diogelu'r fioamrywiaeth yn golygu cryn dipyn mwy na gwarchod rhywogaethau prin neu rywogaethau sydd mewn perygl; mae a wnelo'r cynllun â diogelu pob peth byw. Mae cynnal amrywiaeth y bywyd gwylt yn dod yn fwyfwy pwysig, nid yn unig oherwydd gwerth y planhigion a'r anifeiliaid ynddynt eu hunain ond hefyd oherwydd eu gwerth i ddiwallu anghenion dyn.

Mae cynhyrchu'r Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol yn gam pwysig yn y gwaith o gynnal adnoddau bywyd gwylt Ceredigion. Mae'n sylfaen i'r gymuned weithio gyda'i gilydd er mwyn sicrhau dyfodol bioamrywiaeth y Sir. Lluniwyd y Cynllun gan Bartneriaeth Bioamrywiaeth Ceredigion sy'n cynnwys nifer o sefydliadau sydd â chyfrifoldeb am fywyd gwylt.

Mae cynllunio i ddiogelu bioamrywiaeth Ceredigion yn broses barhaus; bydd y Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth yn sicr o esblygu wrth i'n gwybodaeth gynyddu ac o ganlyniad i'r camau a gymerir i gynnal yr amrywiaeth o gynefinoedd a rhywogaeth sydd yn y Sir.

Alun Lloyd Jones,
Y Cynghorydd Alun Lloyd-Jones
Cadeirydd, Partneriaeth Bioamrywiaeth Ceredigion
Gorffennaf 2002

Mae dwy ran i'r ddogfen yma. Ymdrinia Rhan 1 â sut i fynd ati i warchod bioamrywiaeth a rôl Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol. Ceir yn Rhan 2 y Cynlluniau Gweithredu unigol ar gyfer Cynefinoedd a Rhywogaethau.

Cafwyd cymorth gan Gyngor Cefn Gwlad Cymru i gynhyrchu Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Ceredigion.

CYNNWYS

RHAN 1:

Bioamrywiaeth a Chynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol Ceredigion

1. **Beth yw Bioamrywiaeth?**
2. **Fframwaith Gwarchod Bioamrywiaeth**
 - Uwchgynhadledd y Ddaear: Rio 1992
 - Gwarchod Bioamrywiaeth yn y Deyrnas Unedig
3. **Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol Ceredigion**
 - Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol Ceredigion
 - Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol Ceredigion: Cynllun Gweithredu ar gyfer y Cynefinoedd a'r Rhywogaethau
4. **Gweithio mewn Partneriaeth**
5. **Rhaglen Addysg Bioamrywiaeth**
6. **Ceredigion: Ei chymeriad a'i bywyd gwyllt**

Atodiadau:

- A. Rhywogaethau Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth y DU yng Ngheredigion
- B. Cynefinoedd Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth y DU a Chynefinoedd eraill sydd yng Ngheredigion
- C. Cadwraeth Natur – Safleoedd yng Ngheredigion
- D. Byrfodau

RHAN 2:

Cynlluniau Gweithredu Cynefinoedd a Rhywogaethau

RHAN 1

1. BETH YW BIOAMRYWIAETH?

Bioamrywiaeth yw holl amrywiaeth bywyd. Mae'n ymwneud â phopeth o algâu i goed derw, bacteria a morfilod glas. Mae'n cynnwys holl amrywiadau genetig rhywogaethau, y cyswllt rhwng y rhywogaethau hynny a'u cynefinoedd a'r gwahaniaeth rhwng ecosystemau mawr y byd. Mae bioamrywiaeth ym mhob man: yn ein gerddi, y caeau, y gwrychoedd, y mynyddoedd, y clogwyni ac yn y môr. Mae bioamrywiaeth yn cynrychioli ansawdd bywyd. Mae'n fodd i ni gael pleser o'n hamgylchedd, diddordeb ynddo a gwell dealltwriaeth ohono.

Mae bywyd gwyllt Ceredigion yn rhan annatod o'n system cynnal bywyd. Dyma we bywyd yr ydym yn byw ynddi ac y dibynnwn arni. Daw'n fwyfwy eglur bod y bywyd gwyllt sydd o'n cwmpas yn adlewyrchu cyflwr yr amgylchfyd yr ydym oll yn ei rannu. Bywyd gwyllt cyfoethog a ffyniannus yw baromedr amgylchedd iach ar gyfer y bobl ac y mae'n brawf o ddatblygiad cynaliadwy.

Ond mae bywyd gwyllt gymaint yn fwy nag un rhan fach o'n hecoleg. Cyfoethoga ein bywyd bob dydd mewn cymaint o ffyrdd fel ei bod hi'n hawdd ei gymryd yn ganiataol – harddwch ein coedwigoedd naturiol yn y gwanwyn, cân yr adar ar fore o wanwyn, glöynnod byw yn ein gerddi; y coed a'r gwrychoedd sy'n rhan mor bwysig o'n cefn gwlad.

Mae cynifer o'n hanghenion sylfaenol – ein bwyd, ein dillad, ein lloches, ein meddyginiaethau – yn cael eu creu o goed, planhigion ac anifeiliaid. Ysgogwyd nifer o ddatblygiadau gwyddonol a pheirianyddol gan ddyn yn sylwi ar ei gynefin naturiol ac yn ei efelychu. Gallwn briodoli llawer o'n treftadaeth ddiwylliannol – ein llenyddiaeth, ein cerddoriaeth, a hyn oed ein hiaith a'r enwau a ddefnyddiwn – i nodweddion a berthyn i fyd natur.

Mae ansawdd ein bywydau a'r cenedlaethau i ddod yn rhwym wrth yr angen i ddiogelu'r fioamrywiaeth. Mae bioamrywiaeth yn effeithio ar ansawdd ein bywyd mewn nifer o ffyrdd; yn gryno, rhaid diogelu ein bioamrywiaeth er mwyn sicrhau ein parhad.

Y Rhesymau dros Warchod Bioamrywiaeth

- Mae bioamrywiaeth yn cynnal bywyd ei hun – mae gan y rhan fwyaf o rywogaethau rôl bendant i'w chwarae i sicrhau ffyniant y Ddaear. Mae llawer o blanhigion ac anifeiliaid yn ddibynnol ar ei gilydd mewn gwe gymhleth, gyda phob rhywogaeth yn dibynnu ar eraill i oroesi.
- Mae bioamrywiaeth yn fodd i roi nwyddau hanfodol i ni – planhigion ac anifeiliaid fydd yn rhoi i ni fwyd, meddyginiaethau, dillad a rhai deunyddiau crai ar gyfer adeiladu a diwydiant. Rhaid wrth fioamrywiaeth i gynnal holl gwmpas rhywogaethau at ddefnydd y dyfodol.
- Mae bioamrywiaeth yn helpu i gynnal yr amgylchedd – mae prosesau naturiol yn cynorthwyo i reoli llifogydd, atal erydu pridd, helpu i hidlo dwr gwastraff, glanhau llygryddion o'r aer a lleihau swm ac ymyrraeth weledol datblygiadau. Mae bioamrywiaeth hefyd yn arwydd o iechyd yr amgylchedd ac yn brawf o'i gynladwyedd.
- Mae gwerth esthetig ac ysbrydol i fioamrywiaeth – bydd pobl yn elwa'n sylweddol o'r cyswllt â byd natur. Mae cyswllt agos rhwng ansawdd bywyd ac iechyd yr amgylchedd. Bydd nifer o bobl yn gwerthfawrogi bodolaeth rhywogaethau a chynefinoedd hyd yn oed os nad oes ganddynt gyswllt uniongyrchol â nhw.
- Mae bioamrywiaeth yn werthfawr at ddibenion hamdden – mae llawer o bobl yn mwynhau hamddena mewn ardaloedd cefn gwlad a gwarchodfeydd natur mewn ardaloedd trefol. Mae tirweddau deniadol a bywyd gwylt yn ffocws ar gyfer twristiaeth ac yn werthfawr iawn ar gyfer economïau lleol.
- Mae bioamrywiaeth yn effeithio ar ansawdd ein bywyd mewn nifer o ffyrdd; yn fyr dibynnwn ar fioamrywiaeth ar gyfer ein parhad.

2. FFRAMWAITH AR GYFER GWARCHOD BIOAMRYWIAETH

Cynhadledd y Ddaear: Rio, 1992:

Oherwydd pryderon ledled y byd am gyflwr yr amgylchedd, trefnwyd cyfarfod hanesyddol ym 1992 pryd y galwyd ar holl arweinwyr y byd i ddod i Uwchgynhadledd y Ddaear. Arweiniodd hyn at gytundeb rhwng gwledydd y byd i gymryd camau mewn pedwar maes:

- lleihau nwy tŷ gwydr sy'n cael ei ollwng ac sy'n achosi i'r hinsawdd newid
- rheoli coedwigoedd y byd mewn modd cynaliadwy
- gwarchod yr amrywiaeth fiolegol sy'n bod (bioamrywiaeth)
- Agenda 21 – cynllun gweithredu datblygu cynaliadwy am yr 21ain ganrif.

Llofnodwyd y Cytundeb ar Amrywiaeth Fiolegol gan 153 o wledydd, gan gynnwys y Deyrnas Unedig. Yn unol â'r Cytundeb¹ mae'n ofynnol i bob gwlad a'i llofnododd:

'datblygu strategaethau, cynlluniau neu raglenni cenedlaethol er mwyn gwarchod a defnyddio adnoddau biolegol yn gynaliadwy.'

Dyma'r ymrwymiad byd-eang cyntaf i warchod a chynnal bioamrywiaeth. Sefydlodd Uwchgynhadledd y Ddaear egwyddorion newydd a fyddai'n llywio ein hagwedd at fioamrywiaeth ac yn sicrhau ei pharhad.

Ni all datblygiad a chynnydd dyn gael eu hystyried yn gynaliadwy oni bydd y fioamrywiaeth a'r holl amgylchedd yn cael eu gwarchod. Er mwyn gwarchod bioamrywiaeth, mae angen i gymdeithas ddatblygu cynlluniau strategol a fydd yn egluro ac yn integreiddio targedau cadwraethol yn yr un modd â chynllunio ar gyfer unrhyw agwedd arall ar weithgarwch dynol.

Cadwraeth Bioamrywiaeth yn y Deyrnas Unedig

Llywodraeth y Deyrnas Unedig oedd un o'r llywodraethau cyntaf i ymateb i ymrwymiad y Cytundeb. Prif nod y Llywodraeth yw:

'gwarchod a hyrwyddo amrywiaeth fiolegol o fewn y Deyrnas Unedig a chyfrannu at warchod bioamrywiaeth fyd-eang drwy ddefnyddio'r holl feganweithiau priodol'

Cynhyrchwyd nifer o adroddiadau allweddol sy'n cynnig fframwaith strategol ar gyfer gweithredu er lles y fioamrywiaeth:

- a. Bioamrywiaeth: Cynllun Gweithredu'r Deyrnas Unedig (1994); rhaglen weithredu sy'n cwmpasu 59 o amcanion bras sy'n ymwneud â chadwraeth bioamrywiaeth yn y Deyrnas Unedig dros gyfnod o 20 mlynedd.
- b. Bioamrywiaeth: Adroddiad Grw^p Llywio'r Deyrnas Unedig *'Meeting the Rio Challenge'* (1995);

Cynlluniau gweithredu a thargedau ar gyfer cynefinoedd a rhywogaethau allweddol. Cynigiai'r adroddiad yma bedair elfen allweddol i gyflawni amcanion bioamrywiaeth:

- *Datblygu cynlluniau gweithredu ynghyd â thargedau wedi'u costio ar gyfer rhywogaethau a chynefinoedd allweddol;*
- *Gwella'r modd yr ymdrinnir â gwybodaeth a data;*
- *Meithrin ymwybyddiaeth a chyfranogiad;*
- *Cynhyrchu Cynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol.*

Ym mis Mai 1996, cymeradwyodd y Llywodraeth Adroddiad y Grŵp Llywio. Defnyddir Rhaglen Bioamrywiaeth y Deyrnas Unedig bellach i fynd i'r afael â phobl un o'r testunau hyn. Mae paratoi cynlluniau gweithredu cenedlaethol ar gyfer cynefinoedd a rhywogaethau sydd o bryder cadwraethol yn ganolog i hyn ac mae 45 o gynlluniau gweithredu cenedlaethol ar gynefinoedd a 391 o gynlluniau gweithredu cenedlaethol ar rywogaethau bellach wedi'u cynhyrchu dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf.

Grŵp Bioamrywiaeth y Deyrnas Unedig sy'n gyfrifol am lywio Rhaglen Bioamrywiaeth y DU, sef corff a ddisodlodd Grŵp Llwyio'r DU. Mae amryw elfennau'r Rhaglen yn cael eu goruchwyllo gan nifer o is-grwpiau. Hefyd yn atebol i Grŵp Bioamrywiaeth y DU y mae grwpiau ar ran Cymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon sy'n helpu i roi gwybodaeth a chynnal gweithgareddau bioamrywiaeth ym mhob gwlad.

Yng Nghymru, caiff amcanion Rhaglen Bioamrywiaeth y DU eu cyflawni gan Grŵp Bioamrywiaeth Cymru. Rôl Grŵp Bioamrywiaeth Cymru yw hyrwyddo gweithredu Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth y DU, monitro'r cynnydd a rhoi cyngor i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar y camrau y dylid eu cymryd i gynnal a hyrwyddo bioamrywiaeth yng Nghymru. Bydd hefyd yn gyfrifol am wneud y canlynol yn benodol:

- Ysgogi gweithredu a monitro cynnydd o ran gweithredu Cynlluniau Gweithredu Rhywogaethau a Chynefinoedd;
- Hyrwyddo arferion da wrth baratoi a gweithredu Cynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol, a monitro sut y caiff amcanion bioamrywiaeth eu cyflwyno yn lleol;
- Hyrwyddo ymwybyddiaeth ymhlith y bobl, a'u hannog i gymryd rhan yn y broses o warchod y bioamrywiaeth, a monitro cynnydd;
- Cadw golwg ar yr amryw gamau a gymerir gan wahanol sectorau yng Nghymru o ran hyrwyddo bioamrywiaeth ac asesu eu cyfraniad yn cynnal ac yn hyrwyddo bioamrywiaeth;
- Ystyried sut y gellid annog partneriaid allweddol i gyllido gweithgareddau ym maes bioamrywiaeth yng Nghymru;
- Cyflwyno adroddiadau i'r Cynulliad ar yr hyn a wnaed yn gweithredu Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth y DU yng Nghymru, nodi'r prif faterion polisi allweddol a rhoi cyngor ar oblygiadau'r strategaeth ar gyfer Cymru;
- Cysylltu â Grŵp Bioamrywiaeth y DU i gyflwyno adroddiadau ar gynnydd ac ar gynlluniau ar gyfer y dyfodol yng Nghymru, a chydlynu dulliau o fynd i'r afael â materion cyffredin lle bo'n briodol.

3. CYNLLUN GWEITHREDU BIOAMRYWIAETH LLEOL AR GYFER CEREDIGION

Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol Ceredigion

Mae'r Llwydraeth wedi cymryd yr awenau ym maes cadwraeth bioamrywiaeth ond er mwyn llwyddo rhaid i gamrau gael eu cymryd hefyd ar bob lefel ac ym mhob sector o'r gymuned. Dim ond drwy gydweithredu'n lleol y gall amcanion cenedlaethol ar gyfer bioamrywiaeth gael eu cyflawni: Cynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol yw'r prif fecanwaith i'w ddefnyddio i roi strategaeth genedlaethol ar waith. Cynorthwyant i gyflawni'r amcanion cynladwyedd a bioamrywiaeth sydd wrth wraidd Agenda 21 a'r 'Cytundeb Bioamrywiaeth'.

Ymdrinia Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol Ceredigion â Sir Ceredigion, sy'n cynnwys y dyfroedd oddi ar yr arfordir a gwely'r môr 12 milltir i'r môr o gwmpas arfordir Ceredigion. Dyma'r fframwaith ar gyfer y camau i'w cymryd yn lleol a fydd yn cyfrannu at gyflawni'r targedau cenedlaethol ar gyfer cynefinoedd a rhywogaethau allweddol ac at feithrin ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o berthnasedd bioamrywiaeth i bobl Ceredigion. Dyma swyddogaethau Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol Ceredigion yn fras:

- Sicrhau bod cynlluniau gweithredu cenedlaethol yn cael eu trosi'n gamau gweithredu effeithiol yn lleol;
- Sefydlu targedau a chamau gweithredu ar gyfer rhywogaethau a chynefinoedd sy'n nodweddu'r Sir.
- Datblygu partneriaethau effeithiol yn lleol er mwyn sicrhau bod rhaglenni bioamrywiaeth yn cael eu cynnal yn y tymor hir.
- Codi ymwybyddiaeth ynglŷn â chadwraeth bioamrywiaeth a bod yn rhan ohono yng nghyd-destun lleol.
- Sicrhau bod cyfleoedd ar gyfer gwarchod a hyrwyddo adnoddau bioamrywiaeth yn cael eu hystyried yn llawn.
- Nodi'r adnoddau sydd ar gael i weithredu amcanion y Cynllun.
- Darparu sylfaen i fonitro cynnydd wrth ddiogelu'r fioamrywiaeth, yn lleol ac yn genedlaethol.

Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol Ceredigion: Cynlluniau Gweithredu Cynefinoedd a Rhywogaethau

Yn rhan 2 Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol Ceredigion ceir y Cynlluniau Gweithredu ar Gynefinoedd a Rhywogaethau sydd wedi'u llunio hyd yma. Caiff ei ymestyn i gynnwys Cynlluniau Gweithredu ychwanegol fel y byddant ar gael. Ceir hefyd restr o rywogaethau a chynefinoedd yng Ngheredigion yn Atodiadau A a B: bydd y rhestr yma yn fodd i Bartneriaeth Bioamrywiaeth Ceredigion ddewis cynefinoedd a rhywogaethau a fydd yn cael eu cynnwys mewn cynlluniau gweithredu yn y dyfodol. Mae'r rhestr o'r rhywogaethau yn cynnwys y canlynol:

a. Rhywogaethau y rhoddir blaenoriaeth iddynt yn y DU

Fe'u diffinnir fel y rhywogaethau hynny sydd o dan fgythyriad byd-eang neu sy'n dirywio yn y DU (gostyngiad o fwy na 50% yn y 25 mlynedd diwethaf), ac y mae angen cynlluniau gweithredu arnynt i'w gwarchod. Maent yn cynnwys y rhywogaeth ar 'restr fer' *Adroddiad Grw^p Llywio'r DU (Cyfrol 2) (1995)*,

ynghyd â'r 'rhestr ganol' fel y'i newidiwyd wedi hynny.

b. Rhywogaethau y mae pryder yngly^n â'r parhad

Fe'u diffinnir fel y rhywogaethau hynny sy'n bodloni un neu ragor o'r pedwar maen prawf (yn endemig, yn dirywio'n gyflym, o arwyddocâd rhyngwladol, wedi'u rhestru mewn deddfwriaeth ryngwladol), ac a gyhoeddwyd yn gyntaf oll fel y 'rhestr hir' yn *Adroddiad Grw^p Llywio'r DU* (1995).

Mae pob Cynllun Gweithredu ar Gynefinoedd a Rhywogaethau wedi'i baratoi gan gyd-sefydliad neu unigolyn sydd â gwybodaeth arbenigol. Ceir yn y cynlluniau adolygiad diweddar o statws cyfredol y cynefinoedd a'r rhywogaethau hyn, gan ganiatáu i gamau gael eu cymryd sy'n effeithiol ac wedi'u harwain yn dda. Ceir yn y cynlluniau gweithredu hefyd dargedau ar gyfer camau cadwraethol a chodi ymwybyddiaeth ac maent hefyd yn fframwaith monitro. Mae'r cynlluniau hefyd yn nodi 'partner arweiniol' i gymryd yr awenau o ran gweithredu ac adolygu cynllun gweithredu arbennig. Yn gyffredinol, gwelir yr elfennau canlynol yn rhan o bob Cynllun Gweithredu ar Gynefinoedd neu Rywogaethau.:

- Statws Cyfredol:
Dosbarthiad a maint
tueddiadau
statws cadwraethol
- Ffactorau sy'n effeithio ar y cynefin neu'r rhywogaeth
- Camau gweithredu ar hyn o bryd:
Monitro ac arolygu
Rheoli tir
Cyngor / cyswllt
- Targedau (â dyddiadau)
- Cynllun Gweithredu Amlinellol:
Polisi a deddfwriaeth
Diogelu safleoedd a rheoli tir
Ymchwil, monitro ac adolygu
Cyfathrebu a chyhoedduswyd

Nod cyffredinol pob cynllun gweithredu yw gwarchod neu adfer yn llwyddiannus y cynefinoedd neu'r rhywogaethau y rhoddir blaenoriaeth iddynt. Ceisia Cynlluniau Gweithredu gynnal cynefinoedd sy'n bwysig yn lleol, yn genedlaethol ac yn rhyngwladol a chynnal cynefinoedd a rhywogaethau sydd mewn '*cyflwr ffafriol*'.

Er mwyn i gynefin fod mewn cyflwr ffafriol, rhaid iddo fod yn sefydlog neu'n cynyddu o ran ei faint, dylai fod yn gynaliadwy a dylai ei rywogaethau nodweddiadol hefyd fod mewn cyflwr ffafriol. Er mwyn i rywogaeth fod mewn cyflwr ffafriol, dylai parhad y boblogaeth fod yn sicr yn y tymor hir, ni ddylai fod unrhyw gyfyngu ar eu cwmpas a dylai eu cynefin fod yn ddigonol i'w cynnal yn y tymor hir.

Bydd y gofynion a'r blaenoriaethau cadwraethol a amlinellwyd yn y cynlluniau gweithredu yn her i nifer o sefydliadau a sectorau sydd ynghlwm. Bydd pob cynllun yn helpu'r sefydliadau unigol i weld yn union beth yw eu rôl; er enghraifft rheoli safleoedd, rhoi grant, diogelu'r safle neu o bosib ddylanwadu ar bolisi cenedlaethol. Nodir yn y cynlluniau y math o gamau sy'n ofynnol a lle y bydd angen cyllid i'w

gweithredu. Addysg yw'r elfen allweddol a bydd themâu ar wneud pobl yn fwy ymwybodol a hyfforddiant yn cael eu cynnwys yn y cynlluniau.

Bydd monitro cynnydd yn hanfodol: bydd amgylchiadau a phroblemau yn newid gydag amser a bydd angen monitro ac adolygu'r cynlluniau. Mae systemau'n cael eu datblygu ar hyn o bryd (System Cofnodi Camau Bioamrywiaeth) a fydd yn fodd i fesur ac asesu i gwrdd â thargedau ac fel y gall gwybodaeth yn lleol ac yn genedlaethol am fioamrywiaeth gael ei hintegreiddio.

Cyflwr Ffafriol

Ar gyfer cynefinoedd:

- Bod maint a dosbarthiad y cynefinoedd yn dal i fod yn sefydlog neu'n cynyddu
- Bod y fframwaith a'r swyddogaethau penodol sydd eu hangen er mwyn cynnal dros gyfnod hir yn parhau hyd y gellir rhagweld
- Bod cyflwr eu rhywogaethau nodweddiadol yn ffafriol

Ar gyfer rhywogaethau:

- Bod y data ar ddeinameg poblogaeth y rhywogaeth dan sylw yn dangos eu bod yn cynnal eu hunain yn y tymor hir yn rhan annatod o'u cynefinoedd naturiol
- Nad yw cwmpas naturiol y rhywogaeth yn cael ei leihau na chwaith yn debygol o leihau hyd y gellir rhagweld
- Bod yna gynefin mawr i gynnal poblogaeth y rhywogaeth am dymor hir a bydd yn debygol o barhau

4. GWEITHIO MEWN PARTNERIAETH

Mae datblygu partneriaethau effeithiol yn hanfodol i sicrhau y gwireddir targedau bioamrywiaeth yn llwyddiannus. Nid oes gan yr un sefydliad nac unigolyn yr arbenigedd na'r adnoddau i weithredu'r Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth ar ei ben ei hun: y mae'r Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol fodd bynnag yn fodd i annog a chydlynu gweithgareddau fel y gall nodau ac amcanion bioamrywiaeth gael eu cyflawni.

Mae nifer o sefydliadau ac unigolion yng Ngheredigion sydd eisoes yn cyfrannu at gynnal bioamrywiaeth y Sir. Mae nifer o gynlluniau a strategaethau eraill hefyd yn helpu i gyflawni amcanion bioamrywiaeth. Amrywiant o'r Cynllun Datblygu Unedol, Strategaeth Arfordir a Chefn Gwlad Ceredigion, Cynllun Asiantaeth yr Amgylchedd Lleol a nifer o rai eraill. Yn yr un modd, bydd y Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol yn adeiladu ar brosiectau a chynlluniau partneriaethau sydd eisoes yn bod ac maent eisoes yn cyfrannu at dargedau bioamrywiaeth cenedlaethol ar gyfer nifer o gynefinoedd a rhywogaethau yn y Sir.

Ym mis Mehefin 2000, ffurfiwyd Partneriaeth Bioamrywiaeth Ceredigion i gynhyrchu a gweithredu Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol Ceredigion. Dyma aelodau'r Partneriaeth:

ADAS (Pwllpeiran)
Adran Amaethyddiaeth a Materion Gwledig (Llywodraeth Cynulliad Cymru)
Cyngor Sir Ceredigion
Cymdeithas Tirfeddianwyr Gwlad
Cyngor Cefn Gwlad Cymru
Dw^r Cymru
Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru
Undeb Amaethwyr Cymru
Y Comisiwn Coedwigaeth
Agenda Leol 21, Ceredigion
Grw^p Coetiroedd Nanteos
Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr - Cymru
Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol
Pwyllgor Pysgodfeydd y Môr y Gogledd Orllewin a Gogledd Cymru
Cymdeithas Frenhinol er Gwarchod Adar
Ymddiriedolaeth y Ddaear
Tir Coed
Prifysgol Cymru, Aberystwyth
Prifysgol Cymru, Llanbedr Pont Steffan
Urdd, Llangrannog
Asiantaeth Datblygu Cymru
Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt y De a Gogledd Cymru

Ymddiriedolaeth Coetiroedd
Ymlaen Ceredigion

Enghreifftiau o brosiectau a chynlluniau'r bartneriaeth yng Ngheredigion

Fforwm Bae Ceredigion

Arfordir Treftadaeth Forol Ceredigion

Coed Cymru

Gwarchodfeydd Natur Lleol (Gwarchodfa Natur Leol Penglais / Gwarchodfa
Natur Leol Pendinas a Thraeth Tanybwllch)

Prosiect Mynydd y Ffynnon

Rheoli Ardal Gadwraeth Arbennig (Ardal Gadwraeth Arbennig Bae
Ceredigion / Ardal Gadwraeth Arbennig Pen Llŷn a Sarnau)

Cynllun Rheoli Aber Afon Teifi

Ymlaen Ceredigion

5. ADDYSG BIOAMRYWIAETH

Ni ellir gadael bioamrywiaeth i sefydliadau sy'n ymwneud â rheoli tir a chadwraeth natur yn unig ac mae gan y Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol rôl hanfodol i'w chwarae yn annog y gymuned ehangach yng Ngheredigion i ddeall y cynllun yn well a'i gefnogi.

Mae addysg bioamrywiaeth felly yn rhan hanfodol o'r broses. Ymwybyddiaeth ymhlith y cyhoedd fydd yn datgan yn y pen draw sut ac i ba raddau y caiff bioamrywiaeth ei chynnal a'i gwella. Rhaid i'r rhaglen addysgu gael ei hanelu at wahanol lefelau, gan hyfforddi arbenigwyr, pobl ifanc a'r cyhoedd yn y dulliau ffurfiol ac anffurfiol. Nod y Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol o ran addysg bioamrywiaeth yw:

- Hyrwyddo ac annog gwell dealltwriaeth o fioamrywiaeth yng Ngheredigion.
- Hyrwyddo datblygu rhaglen gydlynus o addysg amgylcheddol ar bob lefel.
- Dyfeisio, annog a chefnogi cynlluniau a fydd yn rhoi gwybodaeth am sut i ddiogelu a hyrwyddo bioamrywiaeth Ceredigion.
- Annog y gymuned i fod yn rhan o'r broses o ddiogelu a hyrwyddo bioamrywiaeth.

Gall negeseuon a chynlluniau bioamrywiaeth gael eu haddasu i ddi-ddordebau arbennig sectorau amrywiol yn y gymuned. Er enghraifft, mae llwyddiant y rhaglen fioamrywiaeth yn dibynnu i raddau helaeth ar waith amaethwyr – bydd rheolwyr ffermydd a'r diwydiant ffermio yn awyddus i hyrwyddo bioamrywiaeth heb gollu elw tymor hir. O safbwynt addysg, gall ysgolion ddatblygu cyfleoedd i integreiddio bioamrywiaeth i mewn i'r cwricwlwm a darganfod ffyrdd o feithrin diddordeb pobl ifanc ym myd natur.

Mae angen i awdurdodau lleol, asiantaethau statudol a thirfeddianwyr gael gwybod a'u perswadio am yr angen i ymgorffori ystyriaethau'n ymwneud â bioamrywiaeth yn eu gwaith. Drwy hyn, gall egwyddorion bioamrywiaeth a thechnegau rheoli tir gael eu trosglwyddo i bobl a fydd yn dylanwadu ar y gwaith sydd i'w wneud ac i unigolion a fydd yn gwneud y gwaith ar lefel lle bydd newid mewn bioamrywiaeth yn digwydd.

6. CEREDIGION: EI NATUR A'I BYWYD GWYLLT

Daeareg a thirwedd

Mae rhyw 700 milltir sgwâr yn perthyn i Geredigion. Mae'n Sir ac iddi gefn gwlad nodedig; cefnen uchel Mynyddoedd y Cambria, llwyfandir uchel anghysbell gyda mynyddoedd y Pumlumon yn codi'n uchel uwchlaw (2468 troedfedd / 752 metr yn ei uchder); dyffrynnoedd afonydd Teifi, Aeron, Ystwyth, Rheidol a Dyfi a bryniau. Ffermydd bychan sy'n nodweddu Ceredigion fwyaf yn ogystal ag olion arferion amaethyddol a welwyd yn cael eu defnyddio gan genedlaethau lawer – patrwm dwys o gaeau a gwrychoedd a choedwigoedd. Ar dir uwch, mae'r tir amaethyddol yn troi'n weundir agored a cheir coedwigoedd conifferaidd ar Fynydd Bach a Mynyddoedd y Cambria.

Mae arfordir a dyfroedd Bae Ceredigion yn nodedig hefyd. Rhwng aber afon Dyfi a Theifi, mae'r draethlin yn amrywio o'r twyni sydd i'w gweld yn Ynyslas, y stormdraethau, y cilfachau tywod a'r clogwyni uchel. Mae llawer o'r arfordir heb ei ddatblygu; dynodwyd pedair adran yn rhannau o'r Arfordir Treftadaeth. Dewiswyd dwy ardal ym Mae Ceredigion yn ddarpar Ardaloedd Cadwraeth Arbennig oherwydd eu pwysigrwydd o safbwynt cadwraeth natur.

Daeareg a geomorffoleg Ceredigion yw sylfaen ei thirwedd. O dan yr wyneb, mae'r creigiau'n dyddio'n ôl i'r systemau Silwraidd ac Ordofigaidd a osodwyd ar lawr basn y môr yn y cyfnod rhwng 505 a 406 miliwn o flynyddoedd yn ôl. Codwyd y creigiau gwaddod yma – cerrig llaid, cerrig silt a cherrig tywod – i fyny a dod i'r golwg uwchlaw'r môr yn ystod y cyfnod pryd y ffurfiwyd nifer o flynyddoedd a elwir yn Oregeni Caledoniaidd (tua diwedd y cyfnod Silwraidd a dechrau'r cyfnod Defonaidd). Yn ystod y cyfnod yma, roedd y creigiau gwaddod yn cael eu codi, eu plygu, eu cywasgu a'u ffawtio'n llorweddol, gan arwain at wyrdroi ac adleoli creigiau. Gwelir y creigiau a'u strwythurau orau ar hyd yr arfordir.

Dros yr 800,000 mlynedd diwethaf, bu nifer o rewlifiannau yng Ngheredigion. Ni pharhaodd yr iâ yn ddi-baid oherwydd cafwyd cyfnodau rhyngrewlewifol a oedd fwy neu lai'n rhydd o iâ ac yn gymharol gynnes. Parhaodd y cyfnod rhewlifol diwethaf (y Defensiaidd) tan ryw 15,000 o flynyddoedd yn ôl. Yn ystod yr oes iâ ddiwethaf, roedd dwy system rewlifol o bwys yng Ngheredigion. Roedd y naill yng nghanolbarth Cymru ac yn cynnwys ardal Pumlumon. Llifodd iâ o'r ardal yma i gyfeiriad y de-orllewin dros Geredigion a datblygwyd rhewlifau yn nyffrynnoedd Dyfi, Rheidol a Theifi ac eraill. Symudodd y system iâ arall, a elwir yn haen iâ Môr Iwerddon yr hyn sy'n cael ei gydnabod yn awr fel ardal y Môr Iwerddon ac effeithiodd ar ran ddeheuol y Sir.

Diflannodd yr iâ o'r Sir rhwng 14,000 a 18,000 o flynyddoedd yn ôl. Ffurfiwyd Cors Caron (a grëwyd y tu ôl i fanciau o farian rhewlifol) o ganlyniad i enciliad y rhewlif. Islaw Llanybydder hefyd ffurfiwyd cyfres o orlfdiroedd eang a cheunentydd cul (canlyniad creu pyllau o ddwr tawdd rhewlifol a sianeli rhewlifol). Gellir dyddio nodweddion eraill yn ôl i ddiwedd yr Oes Iâ ddiwethaf, megis y 'pingos' sydd Cwrtnewydd, Gorsgoch a Thalgarreg.

Yn wir, y mae llawer o Geredigion wedi'i gorchuddio â haen o ddeunyddiau rhewlifol a ddyddodwyd yn ystod yr Oes Iâ ddiwethaf; clogfeini, twmpathau tywod a cherrig mân, cerrig mân ar derasau afonydd a banciau trwchus o wastraff o dan glogwyni arfordirol.

Mae clogwyni creigiau yn codi uwchlaw ymyl y traeth ar hyd rhannau helaeth o arfordir Ceredigion, ond mewn rhai sectorau mae wyneb y graig i'w ganfod ychydig i mewn i'r tir, wedi'i orchuddio o dan waddod rhewlifol; cymysgedd o gerrig, tywod graeanog a chlai. Ceir clogfeini ar hyd arfordir Aberaeron a Llan-non tra gwelir, mewn safleoedd eraill ym Morfa Bychan ac i'r gogledd o Glarach, bod y deunydd yma yn ffurfio clogwyni hyd at 45 metr yn eu uchder.

Oddi ar y lan, gellir dyddio sarnau Bae Ceredigion yn ôl i'r Oes Iâ ddiwethaf hefyd. Mae'r sarnau yn nodwedd bwysig o Fae Ceredigion. Ceir ynddynt ddeunydd marianol o rewlif, a ddyddodwyd mae'n debyg gan rewlif o iâ dros Gymru wedi enciliad rhewlif Môr Iwerddon. Mae pum sarn ym Mae Ceredigion ac mae tri ohonynt wedi'u hangori wrth arfordir Ceredigion (Sarn Gynfelin, Sarn Dewi a Sarn Cadwgan). Ymestyn Sarn Gynfelin allan i'r môr o draeth Wallog am ryw 12 cilometr. Tyfodd chwedl yn lleol o'r sarn yma; chwedl Cantref Gwaelod.

Wrth i'r tymheredd godi ar ddiwedd yr Oes Iâ, gwladychwyd yr ardal yn gyflym gan blanhigion, anifeiliaid a phryfed. O gwmpas 10,000 i 11,000 o flynyddoedd yn ôl roedd y cynnydd graddol yn y tymheredd yn fanteisiol i dwf coed bedw ac, yn ddiweddarach, rhywogaethau eraill o goed (megis coed derw a gwern) a ddaeth yn gyffredin ar yr uwchdiroedd a'r iseldiroedd. Yn ddiweddarach, bu pobl yr Oes Pres yn allweddol yn y broses o ddinistrio llawer o'r coedwigoedd cynhenid er mwyn troi'r tir yn dir âr neu dir pori.

Mynyddoedd a Gweundiroedd

Rhed Mynyddoedd y Cambria ar hyd cefnen ddwyreiniol Ceredigion. Mae'r llwyfandir pellennig yma lle saif y Pumlumon (2468 troedfedd / 752 metr yn eu uchder) yn cynnwys ardaloedd eang o dir pori a gweundir – gan gynnwys darnau helaeth o Dir Comin. Mae'r defaid yn pori ar Fynyddoedd y Cambria yn ffactor bwysig wrth bennu y math o lystyfiant sydd yno a'i ddosbarthiad. Bu plannu coedwigoedd ar ardaloedd eang ar yr ucheldiroedd ar ddiwedd yr 20fed ganrif yn ddylanwad mawr ar gymeriad yr ardal.

Mae hynodrwydd yr ardal i'w briodoli i natur y llystyfiant sydd yno yn awr neu a fu yno ar un adeg. Mae'r corswellt porffor (Molinia) i'w weld yn helaeth ar yr ucheldiroedd a'r iseldiroedd. Dyma'r planhigyn mwyaf cyffredin ar ucheldiroedd Ceredigion, yn arbennig o gwmpas Pumlumon, ac fe'i gwelir yn ffynnu ar bridd mawnog. Mae planhigion sy'n perthyn i deulu'r Nardus (cawn) yn nodwedd o'r ardal yma hefyd. Y mwyaf amlwg ohonynt yw'r troellgorun (*Juncus squarrosus*) ac, i raddau llai, y brigwellt main (*Deschampsia flexuosa*).

Mae llusi duon bach hefyd yn gyffredin, er yn isel eu dwysedd, yn y rhan fwyaf o'r cymunedau ar yr ucheldiroedd. Ceir ardaloedd o rug ar y tir uchel rhwng afon Ystwyth a Rhuddnant ger Cwmystwyth. Mae hefyd yn ardal lle gwelir coch y grug.

Mae Mynyddoedd y Cambria yn gynefin i nifer o adar hefyd sy'n cynnwys llawer o rywogaethau gogleddol. Yr adar bridio mwyaf cyffredin yw corhedydd y waun a'r ehedydd. Mae'r gynffonwen i'w gweld yn agos at laswellt sydd wedi'i bori'n isel a chreigiau. Y creigiau bychan a'r coed anghysbell yw nythfeydd y frân, y gigfran, y cudyll coch neu'r boda.

Bwriad prosiect Mynydd y Ffynnon a gafodd gymorth gan yr Undeb Ewropeaidd oedd datblygu agwedd gynaliadwy at amaethyddiaeth a rheoli ucheldiroedd Ceredigion. Yn wyneb y problemau sy'n wynebu amaethyddiaeth a choedwigaeth, mae'r prosiect peilot wedi hybu diwylliant a bioamrywiaeth fel adnoddau cychwynnol i ddatblygu amgylchedd cynaliadwy a thwristiaeth yn ardal Cwmystwyth. Ceisiodd y prosiect yn arbennig i hyrwyddo gwerth ecolegol tir pori garw lled-naturiol (gyda'r Molinia yn gyffredin iawn) drwy ddylanwadu ar arferion pori ac adfer potensial ecolegol y gyf Morgens.

Caeau a Gwrychoedd

Bu i amaethyddiaeth rôl sylfaenol yn siapio tirwedd Ceredigion. Cafodd y patrwm o gaeau bychan, gwrychoedd, coetiroedd a thir pori ar ucheldiroedd y Sir ei fowldio gan genedlaethau o ffermwyr. O ganlyniad i ddatblygiadau technolegol mewn amaethyddiaeth, ynghyd â'r cymorth a roddwyd i amaethyddiaeth, gwelwyd cynnyrch amaethyddol yn ehangu yn ystod y 50 mlynedd diwethaf. Ar draws Prydain, gwelwyd newid sylweddol yng nghynnwys botanegol caeau.

Mae'r cynllun Tir Gofal yn cefnogi arferion amaethyddol cynaliadwy, gan gynnwys rheoli cynefinoedd sydd eisoes yn bod ac opsiynau i adfer neu greu rhai mathau o gynefinoedd a nodweddion.

Mae gwrychoedd a chloddiau yn nodwedd ddeniadol o'r cefn gwlad. Er mai pennu'r ffin a rheoli stoc fu eu prif bwrpas erioed, mae'r gwrychoedd hefyd yn gynefin ac yn goridor gwerthfawr i fywyd gwylt. Cynrychiolant o fewn y dirwedd system helaeth o safleoedd, yn arbennig er mwyn cynnal yr amrywiaeth cyfoethocaf o anifeiliaid a phlanhigion sydd yn y sir.

Deillia nifer o'r gwrychoedd o'r hen goedwigoedd a gliriwyd yn hytrach na choed a blannwyd o'r newydd. Mae presenoldeb blodau'r gwynt a chlychau'r gog yn arwyddion amlwg o darddiad o hen goedwigoedd hynafol.

Yn y 18fed ganrif a'r 19eg ganrif, amgaewyd llawer o dir yng Ngheredigion (drwy Ddeddfau Seneddol) a gwelwyd gwrychoedd yn cael eu ffurfio am y tro cyntaf erioed. O ganlyniad, mae llawer o'r gwrychoedd sydd i'w gweld heddiw wedi'u ffurfio gan ddyn ac wedi'u plannu â rhywogaethau megis eithin, y ddraenen wen, y ddraenen ddu, eirin duon bach, coed cyll a ffawydd. Defnyddiwyd y tresi aur yn helaeth yn ne Ceredigion hefyd.

Coetiroedd

Mae tua 16,000 ha neu 9% o arwynebedd Ceredigion yn goetir. Mae'r gyfran fwyaf o'r coetiroedd yn cynnwys planhigfeydd mawr ar Fynyddoedd y Cambria. Mae tua 24% o'r coetiroedd wedi'u dosbarthu'n 'Goetiroedd Lled-Naturiol Hynafol'. Mae tuedd i safleoedd coetiroedd hynafol Ceredigion fod yn bennaf ar ochrau dyffrynnoedd afonydd serth megis Dyffryn Teifi, Dyffryn Aeron, Cwm Ystwyth ac, yn arbennig, Cwm Rheidol. Y coetiroedd mwyaf nodweddiadol yw'r coed derw mes digoes, er mai'r onnen yw'r rhywogaeth amlycaf ar rai safleoedd. Mae yno gyfoeth o adar hefyd gan gynnwys y dryw bach a'r dryw melyn a'r adar ysglyfaethus mwy o faint megis y boda a'r barcud coch.

Caiff dau o safleoedd coetiroedd hynafol Ceredigion eu rheoli fel Gwarchodfeydd Natur Cenedlaethol (Coedmor ger Aberteifi a Choed Rheidol ger Pontarfynach) tra bo statws Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig yn perthyn i nifer o goetiroedd eraill. Mae coed derw mes digoes Coedmor yn gorchuddio ochrau'r dyffryn

uwchlaw Teifi. Islaw'r llwyni collen, helygen a phiswydden, mae'r planhigion ar yr haen isa yn cynnwys coedfrwyn, clychau'r gog, bresych y cwn a sawl rhywogaeth o redyn. Mae cen hefyd yn gyffredin iawn yn y coetiroedd. Un o'r rhywogaethau mwyaf a phrinnaf sy'n tyfu ar risgl coed yw llysiâu'r ysgyfaint, *Lobaria pulmonaria*, sydd wedi'i gyfyngu i ardaloedd lle mae'r atmosffer heb ei lygru ryw lawer. Mae adar sy'n nodweddiadol o goedwigoedd derw gorllewinol yn bresennol yna, gan gynnwys y gwybedog brith a'r tingoch.

Yn fuan ar ôl ffurfio'r Comisiwn Coedwigaeth ym 1919, bu cynnydd mawr yn nifer y coed conifer a blannwyd, yn bennaf ym Mynyddoedd y Cambria. Bu effaith planhigfeydd mawr yn destun cryn ddadlau oherwydd eu heffaith ar yr amgylchedd a'u patrwm a'u cynefin unffurf. Fodd bynnag, bu newid sylfaenol mewn arferion coedwigaeth yn ystod y blynyddoedd diwethaf gyda phwyslais ar blannu coed cymysg. Coetiroedd coniferaidd pen uchaf afon Tywi yw hafan olaf y wiwer goch yng Ngheredigion.

Cors a Rhos

Mae dwy Gors yng Ngheredigion sydd o bwys rhyngwladol o safbwynt cadwraeth natur; Cors Fochno, Y Borth a Chors Caron ger Tregaron. Mae'r ddwy yn systemau biolegol cymhleth sy'n cynnal gwe o blanhigion ac anifeiliaid.

Cors Fochno yw un o'r cyforgorsydd mwyaf ar yr iseldiroedd ym Mhrydain. Oherwydd y modd y ffurfiwyd y mawn, gwelir yr wyneb yn codi: mae dyfnder y mawn migwyn yng nghanol y gors oddeutu pum metr. Mae Cors Fochno o bwys rhyngwladol; mae'n safle Ramsar, yn ddarpar Ardal Gadwraeth Arbennig ac yn Warchodfa Biosffer (a restrwyd gan UNESCO) yn ogystal â bod yn Warchodfa Natur Genedlaethol.

Mae planhigion y gors wedi'u haddasu'n benodol i fyw o dan amodau gwlyb, gwael o ran eu maetholynnau ac asidig. Mae Cors Fochno hefyd yn gartref i ddwrgwn, ymlusgiaid, adar ac anifeiliaid di-asgwrn-cefn prin. Ymhlith yr adar sy'n bridio y mae'r gorhwyad, y gylfinir, y pibydd coesgoch, y telor, y llwydfron a'r winchat. Yn y gaeaf, gwelir y bod tinwyn, y dylluan wen a'r dylluan glustiog yn chwilio am ysglyfaeth.

Mae tair cyforgors yn rhan o Gors Caron (sydd hefyd yn safle Ramsar, yn ddarpar Ardal Gadwraeth Arbennig ac yn Warchodfa Natur Genedlaethol) rhwng Tregaron a Phonrhydfendigaid. Yn ei chanol, mae'r gors yn dwmpathog sy'n golygu bod y gors yn dal i dyfu ar i fyny. Yn y pantiau gwelir migwyn yn tyfu ac ar y twmpathau gwelir glaswellt y ceirw, hesg, plu'r gweunydd, creiglus, rhosmari gwyllt, llugaeron a chwys yr haul yn tyfu. Ymhlith y pryfed sydd yno y mae brith y gors, y brith perlog a'r frithribin werdd tra bo dros 40 o rywogaethau adar yn bridio ar y warchodfa. Ar un adeg, roedd Cors Caron yn ffynhonnell bwysig o fawn i'w ddefnyddio fel tanwydd.

Mae rhosydd yn nodwedd arbennig o orllewin Cymru. Maent yn ardaloedd corsiog gydag amrywiaeth eang o rywogaethau planhigion. Ceir yno hefyd amrywiaeth eang a helaeth o bryfed. Mae un math arbennig o löyn byw, brith y gors (*Euphydryas aurania*) wedi'i gyfyngu yng Ngheredigion i ychydig o rostiroedd megis Rhos Pilbach, Rhos Llawr Cwrt a Rhos Glyn yr Helyg.

Mae Rhos Llawr Cwrt (Gwarchodfa Natur Genedlaethol a darpar Ardal Gadwraeth Arbennig ger Talgarreg) yn glytwaith o laswelltir corsiog. Yn y gaeaf, lliwiau brown tawel y brwyn a phorffor glaswellt y bwla sy'n nodweddu'r rhos. Yn y gwanwyn a'r

haf, caiff y rhos ei thrawsffurfio gan fyrdd o flodau yn perthyn i rywogaethau perlysiâu bychan. Yn ogystal â brith y gors, gwelir yn Rhos Llawr Cwrt hefyd 15 rhywogaeth o was y neidr, gan gynnwys y fursen fach goch anghyffredin. Mae'r traddodiad o bori ar ddwysedd isel yn amlwg ar y safle.

Afonydd a Llynnoedd

Afon Teifi, sy'n 122km yn ei hyd, yw un o afonydd hiraf Cymru ac un o'r cynefinoedd mwyaf toreithiog o ran yr eog a'r brithyll. Mae'n tarddu yn Llyn Teifi ym Mynyddoedd y Cambria a disgyn oddi yno drwy rostir a thir coediog serth i Gors Caron ac yna ymlaen drwy'r dyffryn toreithiog a'r ceunentydd creigiog, coediog yn Alltcafaf, Henllan a Chilgerran. Cynigiwyd Afon Teifi, ynghyd â deg o'i llednentydd, yn ddarpar Ardal Gadwraeth Arbennig ar gyfer y tair rhywogaeth o lampreiod yn y Deyrnas Unedig, crethyll, dwrgwn, eog, llyriaid nofiadwy, crafanc y dw^r ac ar gyfer y cymunedau sy'n bodoli yn y llynnoedd uchel. Mae afonydd eraill y Sir bob un yn cynnal eu bywyd gwyllt eu hun; er enghraifft, mae graean afon Cwm Rheidol a Chwm Ystwyth yn gynefin i chwilog prin.

Mae oddeutu chwe deg o lynnoedd a chronfeydd yng Ngheredigion, y rhan fwyaf ohonynt yng ngogledd y Sir. Mae Llyn Eiddwen a Llyn Fanod, ger Penuwch, yn 'llynnoedd mesotroffig' sef cynefin sy'n prnhau ym Mhrydain. Golyga'r cydbwysedd brau ym maetholynnau'r llynnoedd hyn eu bod yn hynod o sensitif i unrhyw newid yn yr amgylchedd. Mae llynnoedd mesotroffig yn cynnal amrywiaeth eang o blanhigion dw^r, gan gynnwys rhywogaethau prin. Caiff Llyn Fanod ei reoli gan Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt De a Gorllewin Cymru; mae hefyd yn Warchodfa Natur Genedlaethol.

Yr Arfordir a'r Aberoedd

Mae i'r clogwyni, y traethau tywod, y stormdraethau, y twyni tywod a'r aberoedd oll eu bywyd gwyllt eu hunain.

Mae adar y môr a welir ar hyd yr ardaloedd hyn yn cynnwys gwyllanod y penwaig, gwyllanod cefnddu, pïod y môr a mulfrain. Wrth Graig yr Adar, un o'r nythfeydd pwysicaf ar gyfer adar y môr yng Nghymru, bydd nifer o wylogod, gweilch y penwaig, gwyllanod coesddu, adar drycin y graig a'r mulfrain gwyrddion yn nythu yno bob haf. Aderyn a welir yn llai aml yw'r frân goesgoch, yr aelod o deulu'r frân sydd â phig goch a choesau coch. Mae rhyw 22 pâr yn bridio ar hyd arfordir Ceredigion ar hyn o bryd. Mae clogwyni'r arfordir hefyd yn lloches i'r hebog a welir hefyd ar rai o'r clogwyni yng nghanol y tir. Ceir hefyd ymwelwyr yn ystod y gaeaf megis pibydd porffor y traeth a hutan y dŵ^r.

Yn yr haf, mae arfordir Ceredigion yn frith o nifer o blanhigion sy'n gysylltiedig ag wyneb y clogwyni a'r llethrau. Yn eu plith y mae'r rhywogaethau cyffredin megis y glustog Fair, (*Armeria maritime*), gludlys arfor (*Silene uniflora*), morlwyau meddygol (*Cochlearia officinalis*), amranwen y môr (*Tripleurospernum maritimum*), ffacbys (*Vulneraria*) a llyriaid y môr (*Plantago maritime*).

Yn y Borth, mae cefnen o gerrig mân yn ymestyn tua'r gogledd o'r clogwyni ar draws aber afon Dyfi yn Ynyslas. Mae'r gefnen o gerrig mân yn cynnwys gro mân a cherrig crynion sydd wedi cronni o ganlyniad i gludo deunydd o'r fath ar hyd y lan gan broses a elwir yn ddrifft arfordirol. Mae'r twyni tywod sydd wedi datblygu y tu ôl i'r gefnen o gerrig mân yn Ynyslas yn rhan o Warchodfa Natur Genedlaethol Dyfi. Mae'r system twyni tywod yn fodd i gynnal yr amrywiaeth o blanhigion, o'r moresg i'r tegeirian rhuddgoch cynnar a ddaeth i laciau'r twyni llaith.

Mae dau forfa heli yng Ngheredigion. Saif yr un mwyaf ar hyd glan ddeheuol aber afon Dyfi. Mae'r morfeydd heli a'r traethellau llaid yn ffynhonnell gyfoethog o fwyd ar gyfer nifer o wahanol rywogaethau o adar ac yn arbennig ar gyfer mewnfudwyr dros y gaeaf megis y corhwyaid a'r chwiwellau. Mae Gwarchodfa'r RSPB yn Ynys Hir yn cynnwys y cynefin yma. O fewn aber afon Teifi mae dwy ardal llai o faint, y naill rhwng cors Pentood a'r ardal i fyny afon Teifi o Aberteifi a'r llall yn Nant y Ferwig.

Mae'r blodau a welir o gwmpas y morfeydd heli yn nodedig i'r ardaloedd penodol hynny. Rhywogaethau o lyrllys (*Salicornia*) yw'r brif rywogaeth ar y traethellau llaid. Ar lefel ychydig yn uwch mae glaswellt y morfa (*Puccinellia maritime*) yn dechrau ffurfio glastir yn arbennig o gwmpas ochrau cilfachau'r morfeydd heli.

Bywyd Môr Bae Ceredigion

Mae'r dw^r ar hyd arfordir Bae Ceredigion yn hafan i fywyd gwyllt. Defnyddia'r morloi llwyd y traethau bychain i halio eu hunain ar y creigiau, bydd adar y môr yn nythu ar y clogwyni a bydd mamaliaid y môr, megis y dolffiniaid trwynbwl a llamidyddion yr harbwr, i'w gweld yn aml yn agos i'r lan. Yn ychwanegol at hynny, mae aberoedd afon Dyfi ac afon Teifi yn nythfeydd pwysig ar gyfer y draenogiaid a'r hyrddiaid.

Amcangyfrifir bod 127 o ddolffiniaid trwynbwl ym Mae Ceredigion. Tra bo dolffiniaid wedi'u gweld ledled y Bae, credir eu bod o gwmpas y de yn bennaf. Cafodd y dolffiniaid a chynefin Bae Ceredigion eu cydnabod o bwysigrwydd cadwraethol Ewropeaidd. Dynodwyd yr ardal yma yn ddarpar Ardal Gadwraeth Arbennig o dan Gyfarwyddyd Cynefinoedd Ewropeaidd. Yn fwy diweddar, ychwanegwyd nodweddion eraill o fewn yr ardal at y dynodiad, gan gynnwys yr ogofau, morlo llwyd yr lwerydd a lampreiod y môr a'r afonydd. Bydd Ardal Gadwraeth Arbennig Bae Ceredigion yn ychwanegiad at gynllun yr Arfordir Treftadaeth Forol a sefydlwyd ym 1992 ac yn ymwneud â'r rhan o'r arfordir rhwng Ceinewydd a Thresaith.

I'r gogledd, mae ardal arall o'r Bae wedi'i chynnwys yn Ardal Gadwraeth Arbennig Pen Llŷn a Sarnau. Mae'r ardal o bwysigrwydd rhyngwladol oherwydd y cynefinoedd arbennig sydd yno, gan gynnwys y sarnau a'r aberoedd. O dan y tonnau, bydd y sarnau yn cynnal cymunedau helaeth o wymon ac yn gynefin i nifer o wahanol rywogaethau'r môr.

GWYBODAETH BELLACH:

- 'Biodiversity: the UK Action Plan', (1994)
- 'Biodiversity: the UK Steering Group Report. Volume 1 - Meeting the Rio Challenge'. (1995)
- 'Biodiversity: The UK Steering Group Report. Volume 2 - Action Plans' (1995)
- 'Tranche 2 Action Plans, Vols. 1 - 5', Grwp Bioamrywiaeth y Deyrnas Unedig: (1998 & 1999)
- 'Sustaining the Variety of Life', Grwp Bioamrywiaeth y Deyrnas Unedig (2001)
- Guidance for Local Biodiversity Action Plans', Grwp Ymgynghorol Materion Lleol Cymru (1997)
- 'Action for Wildlife', Cyngor Cefn Gwlad Cymru (1997)
- 'Coast and Countryside Strategy', Cyngor Sir Ceredigion (2000)
- 'Ceredigion, Its Natural History', David B James (2001).

GWEFANNAU:

- | | |
|--|--|
| Gwefan Bioamrywiaeth y Deyrnas Unedig: | www.ukbap.org.uk |
| Cyngor Cefn Gwlad Cymru: | www.ccw.org.uk |
| Cyngor Sir Ceredigion: | www.ceredigion.org.uk |

ATODIAD A

RHYWOGAETHAU CYNLLUN GWEITHREDU BIOAMRYWIAETH Y DEYRNAS UNEDIG SYDD YNG NGHeredigion

Ffynhonnell: 'Biodiversity: Species Audit for Wales' RSPB et al (2000)

Rhywogaethau y rhoddir blaenoriaeth iddynt yn y DU

LLADIN	CYMRAEG	SAESNEG
<i>riturus cristatus</i>	Madfall gribog	Great crested newt
<i>Bombus sylvarum</i>	Cardwenynen	Shrill carder bee
<i>Bombus distinguendus</i>	Cacwn	Great yellow bumble bee
<i>Bombus humilis</i>	Cardwenynen	Brown-banded carder bee
<i>Bombus ruderatus</i>	Cacwn	Large garden bumble bee
<i>Bidessus minutissimus</i>	Chwilen ddwr	A water beetle
<i>Cicindela maritima</i>	Not Available	A dune tiger beetle
<i>Hydroporus rufifrons</i>	Chwilen ddwr	A water beetle
<i>Lionychus quadrillum</i>	Not Available	A ground beetle
<i>Melanapion minimum</i>	Gwiddon	A weevil
<i>Perileptus areolatus</i>	Not Available	A ground beetle
<i>Thinobius newberyi</i>	Not Available	A rove beetle
<i>Acrocephalus paludicola</i>	Telwr y dwr	Aquatic warbler
<i>Alauda arvensis</i>	Ehedydd	Skylark
<i>Botaurus stellaris</i>	Aderyn y bwn	Bittern
<i>Caprimulgus europaeus</i>	Troellwr mawr	Nightjar
<i>Carduelis cannabina</i>	Llinos	Linnet
<i>Emberiza schoeniclus</i>	Bras y cyrs	Reed bunting
<i>Lullula arborea</i>	Ehedydd y coed	Woodlark
<i>Melanitta nigra</i>	Môr-hwyaden ddu	Common scoter
<i>Muscicapa striata</i>	Gwybedog mannog	Spotted flycatcher
<i>Passer montanus</i>	Golfan y mynydd	Tree sparrow
<i>Pyrrhula pyrrhula</i>	Coch y berllan	Bullfinch
<i>Tetrao tetrix</i>	Grugiar ddu	Black grouse
<i>Turdus philomelos</i>	Bronfraith	Song thrush
<i>Argynnis adippe</i>	Britheg frown	High brown fritillary
<i>Boloria euphrosyne</i>	Britheg berlog	Pearl-bordered fritillary
<i>Eurodryas aurinia</i>	Britheg y gors	Marsh fritillary
<i>Alosa alosa</i>	Herlyn	Allis shad
<i>Alosa fallax</i>	Gwangen	Twaite shad
<i>Hygrocybe calyptriformis</i>	Not available	Pink meadow cap
<i>Hygrocybe spadicea</i>	Not available	Date-coloured waxcap
<i>Microglossum olivaceum</i>	Not available	An earth-tongue
<i>Collema dichotomum</i>	Cen	River jelly lichen
<i>Graphina pauciloculata</i>	Cen	A lichen
<i>Pallavicinia lyellii</i>	Llysiâu'r afu	Veilwort
<i>Petalophyllum ralfsii</i>	Llysiâu'r afu	Petalwort
<i>Riccia huebeneriana</i>	Llysiâu'r afu	Violet crystalwort
<i>Hemaris tityus</i>	Gwalchwyfyn	Narrow-bordered bee hawk-moth
<i>Hydrelia sylvata</i>	Gwyfyn brith tonnog	Waved carpet

<i>Jodia croceago</i>	Uwchadain melyngoch	Orange upperwing
<i>Mythimna turca</i>	Not available	Double line
<i>Pechipogon strigilata</i>	Not available	Common fan-foot
<i>Polymixis xanthomista</i>	Not available	Black-banded
<i>Schrankia taenialis</i>	Not available	White-lined snout
<i>Xestia ashworthii</i>	Not available	Ashworth's rustic
<i>Arvicola terrestris</i>	Llygoden bengron y dwr	Water vole
<i>Lepus europaeus</i>	Ysgyfarnog	Brown hare
<i>Lutra lutra</i>	Dyfrgi	Otter
<i>Muscardinus avellanarius</i>	Pathew	Dormouse
<i>Pipistrellus pipistrellus</i>	Ystum lleiaf	Pipistrelle bat
<i>Rhinolophus ferrumequinum</i>	Ystum pedol mwyaf	Greater horseshoe bat
<i>Phocoena phocoena</i>	Llamhidydd	Harbour porpoise
<i>Odontoceti</i>	Morfild danheddog	Toothed whales
<i>Delphinidae</i>	Dolffiniaid bach	Small dolphins
<i>Cheloniidae</i>	Crwbanod mor	Marine turtles
<i>Cetorhinus maximus</i>	Heulgi	Basking shark
<i>Raja batis</i>	Morgath	Common skate
Teleosts	Pysgod mor sy'n cael eu pysgota	Commercial marine fish
<i>Margaritifera margaritifera</i>	Cragen las berlog	A freshwater pearl mussel
<i>Bryum calophyllum</i>	Mwsogl	A moss
<i>Bryum warneum</i>	Mwsogl	A moss
<i>Cryphaea lamyana</i>	Mwsogl	Multi-fruited river moss
<i>Ditrichum plumbicola</i>	Mwsogl	A moss
<i>Drepanocladus vernicosus</i>	Mwsogl	Slender green feather-moss
<i>Sphagnum balticum</i>	Mwsogl	Baltic bog moss
<i>Weissia rostellata</i>	Mwsogl	A moss
<i>Dianthus armeria</i>	Penigan y porfeydd	Deptford pink
<i>Limonium britannicum</i> ssp. <i>transcanalis</i>	Lafant Prydeinig	Rock sea-lavender
<i>Luronium natans</i>	Dwr-lyriad nofiadwy	Floating water plantain
<i>Pilularia globulifera</i>	Pelenllys	Pillwort
<i>Ranunculus tripartitus</i>	Crafanc trillob	Three-lobed water-crowfoot
<i>Scandix pecten-veneris</i>	Crib Gwener	Shepherd's needle
<i>Silene gallica</i>	Gludlys amryliw	Small-flowered catchfly
<i>Trichomanes speciosum</i>	Rhedynen wrychog	Killarney fern
<i>Baryphyma gowerense</i>	Corryn	A spider
<i>Maro lepidus</i>	Corryn	A spider
<i>Nitella gracilis</i>	Rhawn yr ebol	Slender stonewort
<i>Asilus crabroniformis</i>	Pryf lladd	Hornet robberfly
<i>Thereva lunulata</i>	Pry pigfain	A stiletto fly

UK Long List Species
LLADIN

Bufo bufo
Rana temporaria
Triturus helveticus
Triturus vulgaris
Accipiter gentilis
Accipiter nisus
Acrocephalus schoenobaenus
Acrocephalus scirpaceus
Alca torda
Alcedo atthis
Anas acuta
Anas clypeata
Anas crecca
Anas penelope
Anas platyrhynchos
Anas querquedula
Anser albifrons
Anthus petrosus
Anthus pratensis
Anthus trivialis
Arenaria interpres
Asio flammeus
Asio otus
Aythya ferina
Aythya fuligula
Bucephala clangula
Buteo buteo
Calidris alba
Calidris alpina
Calidris maritima
Carduelis carduelis
Carduelis chloris
Carduelis flammea
Carduelis spinus
Certhia familiaris
Cettia cetti
Charadrius dubius
Charadrius hiaticula
Cinclus cinclus
Circus aeruginosus
Circus cyaneus
Coccothraustes coccothraustes
Coturnix coturnix
Cygnus columbianus
Cygnus cygnus
Cygnus olor
Delichon urbica
Dendrocopos major
Dendrocopos minor

CYMRAEG

Llyffant dafadennog
 Llyffant melyn
 Madfall ddwr balmwyddog
 Madfall ddwr gyffredin
 Gwalch marth
 Gwalch glas
 Telor yr hesg
 Telor y cyrs
 Gwalch y penwaig
 Glas y dorlan
 Hwyaden lostfain
 Hwyaden lydanbig
 Corhwyaden
 Chwiwell
 Hwyaden wyllt
 Hwyaden addfain
 Gwydd dalcen-wen
 Corhedydd y graig
 Corhedydd y waun
 Corhedydd y coed
 Cwtiad y traeth
 Tylluan glustiog
 Tylluan gorniog
 Hwyaden bengoch
 Hwyaden gopog
 Hwyaden lygad-aur
 Bwncath
 Pibydd y tywod
 Pibydd y mawn
 Pibydd du
 Nico
 Llinos werdd
 Llinos bengoch
 Pila gwyrdd
 Dringwr bach
 Telor Cetti
 Cwtiad torchog bach
 Cwtiad torchog
 Bronwen-y-dwr
 Bod y gwerni
 Boda tinwyn
 Gylfinbraff
 Sofliar
 Alarch Bewick
 Alarch y gogledd
 Alarch dof
 Gwennol y bondo
 Cnocell fraith fwyaf
 Cnocell fraith leiaf

SAESNEG

Common toad
 Common frog
 Palmate newt
 Smooth newt
 Goshawk
 Sparrowhawk
 Sedge warbler
 Reed warbler
 Razorbill
 Kingfisher
 Pintail
 Shoveler
 Teal
 Wigeon
 Mallard
 Garganey
 White-fronted goose
 Rock pipit
 Meadow pipit
 Tree pipit
 Turnstone
 Short-eared owl
 Long-eared owl
 Pochard
 Tufted duck
 Goldeneye
 Buzzard
 Sanderling
 Dunlin
 Purple sandpiper
 Goldfinch
 Greenfinch
 Lesser redpoll
 Siskin
 Treecreeper
 Cetti's warbler
 Little ringed plover
 Ringed plover
 Dipper
 Marsh harrier
 Hen harrier
 Hawfinch
 Quail
 Bewick's swan
 Whooper swan
 Mute swan
 House martin
 Great spotted woodpecker
 Lesser spotted woodpecker

<i>Emberiza citrinella</i>	Melyn yr eithin	Yellowhammer
<i>Eudromius morinellus</i>	Hutan y mynydd	Dotterel
<i>Falco columbarius</i>	Cudyll bach	Merlin
<i>Falco peregrinus</i>	Hebog tramor	Peregrine
<i>Falco subbuteo</i>	Hebog yr ehedydd	Hobby
<i>Falco tinnunculus</i>	Cudyll coch	Kestrel
<i>Ficedula hypoleuca</i>	Gwybedog brith	Pied flycatcher
<i>Gallinago gallinago</i>	Giach gyffredin	Snipe
<i>Gavia stellata</i>	Trochydd gwddfgoch	Red-throated diver
<i>Hirundo rustica</i>	Gwennol	Swallow
<i>Lagopus lagopus</i>	Grugiar	Red grouse
<i>Larus argentatus</i>	Gwylan y penwaig	Herring gull
<i>Larus fuscus</i>	Gwylan gefnddu leiaf	Lesser black-backed gull
<i>Limosa lapponica</i>	Rhostog gynffonfrith	Bar-tailed godwit
<i>Locustella naevia</i>	Troellwr bach	Grasshopper warbler
<i>Loxia curvirostra</i>	Gylfin groes	Common crossbill
<i>Lymnocyptes minimus</i>	Giach fach	Jack snipe
<i>Mergus merganser</i>	Hwyaden ddanheddog	Goosander
<i>Mergus serrator</i>	Hwyaden frongoch	Red-breasted merganser
<i>Milvus milvus</i>	Barcud coch	Red kite
<i>Motacilla alba</i>	Siglen fraith	Pied wagtail
<i>Motacilla cinerea</i>	Siglen lwyd	Grey wagtail
<i>Numenius arquata</i>	Gylfinir	Curlew
<i>Numenius phaeopus</i>	Coeg-gylfinir	Whimbrel
<i>Oenanthe oenanthe</i>	Tinwen y garn	Wheatear
<i>Panurus biarmicus</i>	Titw barfog	Bearded tit
<i>Parus ater</i>	Titw penddu	Coal tit
<i>Parus caeruleus</i>	Titw tomos las	Blue tit
<i>Parus major</i>	Titw mawr	Great tit
<i>Parus montanus</i>	Titw'r helyg	Willow tit
<i>Parus palustris</i>	Titw'r wern	Marsh tit
<i>Phalacrocorax aristotelis</i>	Mulfran werdd	Shag
<i>Phalacrocorax carbo</i>	Mulfran	Cormorant
<i>Phoenicurus phoenicurus</i>	Tingoch	Redstart
<i>Phylloscopus collybita</i>	Siff-saff	Chiffchaff
<i>Phylloscopus sibilatrix</i>	Telw y coed	Wood warbler
<i>Picus viridis</i>	Cnocell werdd	Green woodpecker
<i>Pluvialis apricaria</i>	Cwtiad aur	Golden plover
<i>Pluvialis squatarola</i>	Cwtiad llwyd	Grey plover
<i>Porzana porzana</i>	Rhegen fraith	Spotted crane
<i>Prunella modularis</i>	Llwyd y gwrych	Dunnock
<i>Puffinus puffinus</i>	Aderyn-drycin Manaw	Manx shearwater
<i>Pyrhacorax pyrrhacorax</i>	Brân goesgoch	Chough
<i>Rallus aquaticus</i>	Rhegen y dwr	Water Rail
<i>Regulus regulus</i>	Dryw eurben	Goldcrest
<i>Riparia riparia</i>	Gwennol y glennydd	Sand martin
<i>Saxicola rubetra</i>	Crec yr eithin	Whinchat
<i>Saxicola torquata</i>	Clochdar y cerrig	Stonechat
<i>Scolopax rusticola</i>	Cyfflyg	Woodcock
<i>Sitta europaea</i>	Telw y cnau	Nuthatch
<i>Somateria mollissima</i>	Hwyaden fwythblu	Eider
<i>Strix aluco</i>	Tylluan frech	Tawny owl
<i>Sylvia atricapilla</i>	Telw penddu	Blackcap

<i>Sylvia borin</i>	Telor yr ardd	Garden warbler
<i>Sylvia curruca</i>	Llwydfron fach	Lesser whitethroat
<i>Sylvia communis</i>	Llwydfron	Whitethroat
<i>Tadorna tadorna</i>	Hwyaden yr eithin	Shelduck
<i>Tringa nebularia</i>	Pibydd coeswyrdd	Greenshank
<i>Tringa totanus</i>	Pibydd coesgoch	Redshank
<i>Turdus iliacus</i>	Coch dan-aden	Redwing
<i>Turdus pilaris</i>	Socan eira	Fieldfare
<i>Turdus torquata</i>	Mwyalchen y mynydd	Ring ouzel
<i>Tyto alba</i>	Tylluan wen	Barn owl
<i>Uria aalge</i>	Gwylog	Guillemot
<i>Vanellus vanellus</i>	Cornchwiglen	Lapwing
<i>Argynnis paphia</i>	Britheg arian	Silver-washed fritillary
<i>Boloria selene</i>	Britheg beriog fach	Small pearl-bordered fritillary
<i>Coenonympha tullia</i>	Gweundir mawr	The large heath
<i>Cupido minimus</i>	Glesyn bach	Small blue
<i>Thecla betulae</i>	Brithribin frown	Brown hairstreak
<i>Cottus gobio</i>	Penlletwad	Bullhead
<i>Lampetra fluviatilis</i>	Llysywen bendoll yr afon	River Lamprey
<i>Lampetra planeri</i>	Llysywen bendoll y nant	Brook Lamprey
<i>Petromyzon marinus</i>	Llysywen bendoll y môr	Sea lamprey
<i>Salmo salar</i>	Eog	Atlantic salmon
<i>Clavaria zollingeri</i>	Not available	Not available
<i>Cladonia fragilissima</i>	Cen	A lichen
<i>Leptogium burgessii</i>	Cen	A lichen
<i>Lobaria amplissima</i>	Cen	A lichen
<i>Lobaria virens</i>	Cen	A lichen
<i>Melaspilea interjecta</i>	Cen	A lichen
<i>Parmelia quercina</i>	Cen	A lichen
<i>Parmelia robusta</i>	Cen	A lichen
<i>Parmelia taylorensis</i>	Cen	A lichen
<i>Porina guaranitica (heterospora)</i>	Cen	A lichen
<i>Zamenhofia rosei</i>	Cen	Francis' blue-green lichen
<i>Plagiochila atlantica</i>	Llysiâu'r afu	A liverwort
<i>Adscita statices</i>	Coediwr	The forester
<i>Chesias rufata</i>	Not Available	Broom tip
<i>Cossus cossus</i>	Gafrawyfy	Goat moth
<i>Cucullia asteris</i>	Not Available	Starwort
<i>Dyscia fagaria</i>	Not Available	Grey scalloped bar
<i>Capreolus capreolus</i>	Ewig	Roe deer
<i>Dama dama</i>	Dany	Fallow deer
<i>Erinaceus europaeus</i>	Draenog	Hedgehog
<i>Martes martes</i>	Bele	Pine marten
<i>Meles meles</i>	Mochyn daear	Badger
<i>Mustela erminea</i>	Carlwm	Stoat
<i>Mustela nivalis</i>	Gwenci	Weasel
<i>Mustela putorius</i>	Ffwlbart	Polecat
<i>Myotis brandtii</i>	Ystum Brandt	Brandt's bat
<i>Myotis daubentonii</i>	Ystum Daubenton	Daubenton's bat
<i>Myotis mystacinus</i>	Ystum barfog	Whiskered bat
<i>Myotis nattereri</i>	Ystum Natterer	Natterer's bat
<i>Neomys fodiens</i>	Llyg y dwr	Water shrew

<i>Nyctalus noctula</i>	Ystlum mawr	Noctule bat
<i>Plecotus auritus</i>	Ystlum hirglust	Brown long-eared bat
<i>Sorex araneus</i>	Llyg cyffredin	Common shrew
<i>Sorex minutus</i>	Llyg lleiaf	Pygmy shrew
<i>Sabellaria alveolata</i>	Riffiau	A honeycomb worm / Reefs
<i>Vertigo lilljeborgi</i>	Not available	A terrestrial snail
<i>Neobisium maritimum</i>	Not available	A pseudoscorpion
<i>Anguis fragilis</i>	Neidr ddefaid	Slow worm
<i>Lacerta vivipara</i>	Madfall gyffredin	Common lizard
<i>Natrix natrix</i>	Neidr y gwair	Grass snake
<i>Vipera berus</i>	Gwiber	Adder
<i>Diderma ochraceum</i>	y pridd llys nafedd	A slime mould
<i>Lycogala conicum</i>	y pridd llys nafedd	A slime mould
<i>Gonomyia bradleyi</i>	Pry teiliwr	A crane-fly
<i>Limonia goritiensis</i>	Pry teiliwr	A crane-fly

Noder:

bydd Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn cynhyrchu rhestr o rywogaethau o'r pwysigrwydd pennaf yng Nghymru maes o law (fel y bo'n ofynnol gan Adran 74, Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000).

ATODIAD B

CYNEFINOEDD CYNLLUN GWEITHREDU BIOAMRYWIAETH Y DEYRNAS UNEDIG AC ERAILL SYDD YNG NGHEREDIGION

a. Cynefinoedd Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Y Deyrnas Unedig

Coedwigoedd derw yr Uwchdiroedd
Coedwigoedd ynn cymysg yr Uwchdiroedd
Coetiroedd gwlyb
Tir pori a pharcdir ar dir isel
Gwrychoedd hynafol a/neu wrychoedd sy'n gyfoethog o ran eu rhywogaethau
Corsydd pori arfordirol a gorlifdirol
Ymylon caeau grawngnydau
Dolydd ar yr iseldiroedd
Glaswelltir asid sych ar yr iseldiroedd
Tir pori rhostir a brwyn
Gweundir ar dir isel
Gweundir ar dir uchel
Gorgors
Cyforgors ar dir isel
Ffen
Dw^r sefydlog ewtroffig
Llynnoedd mesotroffig
Twyni tywod arfordirol
Clogwyni a llethrau morol
Cerrig mân â thyfiant arfordirol
Morfa heli arfordirol
Traethellau llaid
Riffiau Sabellaria alveata
Tywod a cherrig mân isarforol

b. Cynefinoedd sy'n bwysig yn lleol

Ymyl y ffyrdd
Tomennydd mwyngloddiau metel
Cerrig mân afonydd

Noder: bydd Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn cynhyrchu rhestr o rywogaethau o'r pwysigrwydd pennaf yng Nghymru maes o law (fel y bo'n ofynnol gan Adran 74, Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000).

ATODIAD C

CADWRAETH NATUR – SAFLEOEDD YNG NGHEREDIGION

1. RHYNGWLADOL

Safleoedd Ramsar:

Dynodwyd Safleoedd Ramsar, yn unol â Chynhadledd Ramsar 1971 ar Diroedd Gwlyb o Bwysigrwydd Rhyngwladol, yn gynefinoedd o arwyddocâd arbennig i adar dw'r. Cânt eu gwarchod drwy'r dynodiad ar gyfer Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig.

Siroedd yn y Sir: Cors Caron; Cors Fochno ac Aber Afon Dyfi.

Gwarchodfeydd Biosffer:

Sefydlwyd Gwarchodfeydd Biosffer gan lywodraeth y Deyrnas Unedig o dan Raglen UNESCO ar Ddyn a'r Biosffer. Pwrpas y dynodiad yw diogelu enghreifftiau o'r holl brif fathau o eco-systemau a darparu safleoedd ar gyfer ymchwil ecolegol a hyfforddiant amgylcheddol integredig. Dim ond un warchodfa sydd yng Nghymru.

Safleoedd yn y Sir: Aber Afon Dyfi

Ardaloedd Gwarchod Arbennig (SPAs):

Caiff Ardaloedd Gwarchod Arbennig eu dynodi gan Ysgrifennydd Gwladol Cymru yn unol â Chyfarwyddyd y Gymuned Ewropeaidd ar Warchod Adar Gwyllt (79/409 EEC), er mwyn diogelu cynefinoedd o adar a restrwyd neu sy'n brin a rhywogaethau sy'n mudo yn rheolaidd. Cânt eu gwarchod fel arfer drwy'r dynodiad ar gyfer Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig.

Safleoedd yn y Sir: Ardal Warchod Arbennig Elenydd Mallaen (rhan ohoni).

Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (SACs):

Caiff darpar Ardaloedd Cadwraeth Arbennig eu dynodi gan Ysgrifennydd Gwladol Cymru yn unol â Chyfarwyddyd y Gymuned Ewropeaidd ar Warchod Cynefinoedd Naturiol o Anifeiliaid a Phlanhigion Gwyllt (92/43 EEC) er mwyn diogelu cynefinoedd a rhywogaethau a restrwyd yn brin neu'n wan eu nifer. Cânt eu gwarchod fel arfer drwy'r dynodiad ar gyfer Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig a rhaid i ddarpar Ardaloedd Cadwraeth Arbennig gael eu trin fel petaent wedi eu cymeradwyo gan yr Undeb Ewropeaidd.

Safleoedd yn y Sir:

Darpar Ardal Gadwraeth Arbennig Bae Ceredigion; Darpar Ardal Gadwraeth Forol Arbennig Penrhyn Llyn a Sarnau; Ardal Gadwraeth Arbennig Cors Caron; Ardal Gadwraeth Arbennig Cors Fochno; Ardal Gadwraeth Arbennig Elenydd; Ardal Gadwraeth Arbennig Coed a Cheunant Rheidol; Ardal Gadwraeth Arbennig Rhos Llaur Cwrt; Ardal Gadwraeth Arbennig Afon Teifi; Ardal Gadwraeth Arbennig Rhos Talglas; Ardal Gadwraeth Arbennig Coed Cwm Einion; Ardal Gadwraeth Arbennig Grogwynion; Ardal Gadwraeth Arbennig Elenydd (rhan ohoni) ac Ardal Gadwraeth Arbennig Cwm Doethi a Mynydd Mallaen (rhan ohoni).

2. CENEDLAETHOL

Gwarchodfeydd Natur Cenedlaethol (NNRs):

Crewyd Gwarchodfeydd Natur Cenedlaethol o dan Ddeddf Parciau Cenedlaethol a Mynediad i'r Cefn Gwlad. Cânt eu cyhoeddi gan Gyngor Cefn Gwlad Cymru o dan Adran 35 Deddf Bywyd Gwylt a Chefn Gwlad 1981 (fel y'i diwygiwyd) er mwyn cadw'r enghreifftiau cenedlaethol gorau o wahanol gynefinoedd bywyd gwylt a nodweddion daearegol. Mae'r safleoedd yn eiddo i Gyngor Cefn Gwlad Cymru neu ar brydles iddynt neu o dan gytundeb arbennig gyda'r tiffeddiannwr/asiantaeth. Y prif amcan o'u rheoli yw cynnal a chadw neu hyrwyddo'u diddordeb o safbwynt gwyddonol.

Safleoedd yn y Sir: Allt Rhyd y Groes (rhan ohoni); Coedmor; Coed Rheidol; Cors Caron; Dyfi; Rhos Llawr Cwrt; Llyn Eiddwen; Claerwen (rhan ohoni).

Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SSSIs):

Crewyd Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig yn gyntaf oll o dan Ddeddf Parciau Cenedlaethol a Mynediad i'r Cefn Gwlad 1949. Caiff y dynodiad ei roi yn awr gan Gyngor Cefn Gwlad Cymru o dan Adran 28 Deddf Bywyd Gwylt a Chefn Gwlad 1981, fel y'i diwygiwyd, ar safleoedd ar sail eu planhigion, anifeiliaid, eu nodweddion daearegol neu ffisiograffig. Mae'n ofynnol yn statudol i dirfeddianwyr neu rai sy'n preswyllo ar y tir i hysbysu Cyngor Cefn Gwlad Cymru os bwriadant wneud unrhyw waith a fydd yn niweidio bywyd gwylt neu ddarareg Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig. Mae gan Geredigion dros 100 o Safleoedd dynodedig ac mae'r pwysicaf ohonynt wedi'u dynodi hefyd fel Gwarchodfeydd Natur Cenedlaethol.

Safleoedd yn y Sir: Dros 100 o Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig yng Ngeredigion.

3. LLEOL

Gwarchodfeydd Natur Lleol (LNRs):

Gall Gwarchodfeydd Natur Lleol gael eu dynodi gan awdurdodau lleol ar ôl cael cymeradwyaeth ymlaen llaw gan Gyngor Cefn Gwlad Cymru, o dan Adran 21 Deddf Parciau Cenedlaethol a Mynediad i'r Cefn Gwlad 1949. Caiff Gwarchodfeydd eu dynodi a'u rheoli am eu tirwedd yn lleol a'u cynefin ar gyfer bywyd gwylt ac am y cyfle a gynigir ganddynt i addysgu'r cyhoedd am fywyd gwylt ac iddynt gael mwynhad ohono.

Safleoedd yn y Sir: Gwarchodfa Natur Leol Parc Natur Penglais; Gwarchodfa Natur Leol Pendinas a Thraeth Tanybwllch (y ddwy yn Aberystwyth)

Gwarchodfeydd eraill:

Mae yno Warchodfa RSPB yn Ynys Hir ac mae Ymddiriedolaeth Bywyd Gwylt De a Gorllewin Cymru yn gyfrifol am 17 gwarchodfa natur yng Ngheredigion:

Toriad Allt Fedw
Ynys Aberteifi
Coed Cwm Cletwr

Cors Gorsgoch
Llety Cybi
Llyn Eiddwen

Penderi
Rhos Fullbrook
Rhos Glyn-yr-Helyg

Coed Maidie
Coed Penglanowen
Coed Simdde Lwyd

Llyn Fanod
Old Warren Hill
Pant Da

Rhos Pil-Bach
Rhos y Fforest

ATODIAD D

BYRFODDAU

AAC	Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru
AALCC	Adran Amaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru
AAMG	Adran Amaeth a Materion Gwledig, Llywodraeth Cynulliad Cymru
ADC	Awdurdod Datblygu Cymru
AGA	Ardal Gadwraeth Arbennig
AL21	Agenda Leol 21
AWA	Ardal Warchod Arbennig
CCC	Comisiwn Coedwigaeth Cymru
CCC	Cynulliad Cenedlaethol Cymru
CCGC	Cyngor Cefn Gwlad Cymru
CFDA	Cymdeithas Frenhinol Diogelu Adar
CGBL	Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol
CGC	Cynllun Gweithredu Cynefinoedd
CGR	Cynllun Gweithredu ar Rywogaethau
CPMGOGC	Cymdeithas Pysgodfeydd y Môr y Gogledd Orllewin a Gogledd Cymru
CSC	Cyngor Sir Ceredigion
CTBS	Cymdeithas Tir a Busnes Sirol
DC	Dwr Cymru
GBC	Grwp Bioamrywiaeth Cymru
GBDU	Grwp Bioamrywiaeth y Deyrnas Unedig
GCAA	Gwasanaeth Cyngori'r Adran Amaeth
GCN	Grwp Coetir Nanteos
GNG	Gwarchodfa Natur Genedlaethol
GNL	Gwarchodfa Natur Leol
MCC	Menter Coedwigaeth Cymru
PCA	Prifysgol Cymru, Aberystwyth
PCLI	Prifysgol Cymru, Lampeter
SDGA	Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig
TG	Tir Gofal
UAC	Undeb Amaethwyr Cymru
UCA	Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr
UE	Undeb Ewropeaidd
YBBBGDGC	Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt De a Gorllewin Cymru
YC	Ymddiriedolaeth Coetiroedd
YC	Ymlaen Ceredigion
YD	Ymddiriedolaeth y Ddaear
YG	Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol

CEREDIGION

CYNLLUN

GWEITHREDU

BIOAMRYWIAETH

LLEOL

Rhan 2

Cynlluniau Gweithredu ar gyfer
Cynefinoedd a
Rhywogaethau

CYNNWYS:

Cynlluniau Gweithredu ar Gynefinoedd:

- Coedwigoedd ynn cymysg yr Uwchdiroedd
- Coedwigoedd derw yr Uwchdiroedd
- Coetiroedd gwlyb
- Ymyl y ffyrdd

Cynlluniau Gweithredu ar Rywogaethau:

- Grugieir duon
- Sgwarnogod brown
- Brain coesgoch
- Pryfed Cacynaidd

Cynllun Gweithredu ar Gynefinoedd: COEDWIGOEDD YNN CYMYSG YR UWCHDIROEDD

A. CYFLWYNIAD

Disgrifiad o'r cynefin:

Yng Ngheredigion mae Coedwigoedd Ynn Cymysg yr Uwchdiroedd yn cynnwys coedwigoedd ar sylfaen o bridd da lle gwelir mai'r coed ynn yw'r rhywogaeth amlycaf er o bosib bod coed derw, bedw, llwyfenni, pisgwydd deilen fach neu gyll yn fwy niferus.

Eu dosbarthiad yn Ewrop a'r Deyrnas Unedig:

Ceir coetiroedd yn gysylltiedig â Choedwigoedd Ynn Cymysg yr Uwchdiroedd ar hyd arfordir gorllewinol Ewrop. Mae eu hunion leoliad ychydig yn aneglur ond dengys y gofynion hinsoddol y bydd y cynefin wedi'i gyfyngu o ran ei gwmpas ac y bydd gan y Deyrnas Unedig gyfrifoldeb sylweddol tuag ato o safbwynt rhyngwladol. O fewn y Deyrnas Unedig, gwelir Coedwigoedd Ynn Cymysg yr Uwchdiroedd yn bennaf yn ne-orllewin Lloegr, Cymru, gogledd Lloegr a'r Alban. Mae cyfanswm yr arwynebedd yn aneglur ond yr amcangyfrif a gyhoeddwyd (cynllun gweithredu'r DU) yw 67,500 hecтар. Amcangyfrifir bod gan Gymru 17,000 hecтар, oddeutu 25% o adnodd y Deyrnas Unedig, ac felly mae ganddi gryn gyfrifoldeb o ran gweithredu'r cynllun. Mae Coedwigoedd Ynn Cymysg yr Uwchdiroedd ledled Cymru ac mae'n cynrychioli rhyw 20% o'r coetiroedd lled-naturiol.

Eu dosbarthiad yng Ngheredigion:

Coedwigoedd Ynn Cymysg yr Uwchdiroedd yw'r ail fath mwyaf niferus o goetiroedd yng Ngheredigion ac amcangyfrifir eu bod yn ymestyn dros 1000 ha o'r wlad. Gwasgaredd ydynt o ran eu dosbarthiad ac fe'u gwelir yn aml o fewn mosäig coetiroedd eraill lle bo amodau'r pridd yn lleol wedi caniatáu iddynt ddatblygu.

Tueddiadau:

Coetir oedd tua 30% o'r wlad hyd at oddeutu 1600. Torrwyd mwy na 70% o'r coed i lawr er mwyn amaethu'r tir. Yn ystod y ganrif ddiwethaf, collwyd mwy o Goedwigoedd Ynn Cymysg yr Uwchdiroedd o ganlyniad i symudiad tuag at goed conwydd ac ychydig o waith cloddio. Heddiw, dim ond 0.5% o arwynebedd Ceredigion sydd o dan Goedwigoedd Ynn Cymysg yr Uwchdiroedd. Mae'r darnio a'r cwtogi a fu ar y coedwigoedd, a'r diffyg rheoli oll wedi cyfrannu at ddirywiad y Coedwigoedd Ynn Cymysg yr Uwchdiroedd o ran maint ac ansawdd a hefyd, yn eu tro, dulliau amhriodol o'u rheoli (e.e. pori'n drwm) a chyflwyno rhywogaethau ymwithiol nad ydynt yn gynhenid i'r ardaloedd megis y sycamorwydden a'r rhododendron.

Statws Cadwraeth:

Ewropeaidd: Rhestrwyd yn Atodiad 1 Cyfarwyddyd yr Undeb Ewropeaidd ar Gynefinoedd a Rhywogaethau.

Statws Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth y Deyrnas Unedig:

Uchel – Cynefin â blaenoriaeth y paratowyd cynllun gweithredu â chostau ar ei gyfer.

B. FFACTORAU SY'N EFFEITHIO AR Y CYNEFIN NGHEREDIGION

Colli a darnio Coedwigoedd Ynn Cymysg yr Uwchdiroedd:

Ychydig o ardaloedd mawr (h.y. mwy na 5 ha) â Choedwigoedd Ynn Cymysg yr Uwchdiroedd sydd ar ôl yng Ngheredigion. Mae'r rhan fwyaf o'r coedwigoedd yn fychan ac ni allant gefnogi ystod lawn o amrywiaeth strwythurol a rhywogaethol. Yn wreiddiol fe'u canfuwyd ar bridd da ond cawsant eu clirio at ddibenion amaeth ac yn awr fe'u gwelir yn aml o fewn ardaloedd lle mae yna goetiroedd derw. Byddai colli a/neu ddarnio'r math yma o goetir ymhellach yn annerbyniol. Yn ogystal â chadw hen Goedwigoedd Ynn, dylid gwneud pob ymdrech i'w hadfer ar safleoedd coetiroedd hynafol (gan gynnwys y rheiny sydd wedi'u plannu â choed conwydd), a thrwy ymestyn a chreu cysylltiadau newydd rhwng cynefinoedd coetiroedd.

Rheoli coetiroedd yn amhriodol neu ddiffyg rheolaeth:

Yn ystod y ganrif ddiwethaf, bu dirywiad yn ansawdd nifer o Goedwigoedd Ynn Cymysg yr Uwchdiroedd: collwyd yr amrywiaeth rhywogaethol ac adeileddol, fodd bynnag mae coed ynn ar gynydd, yn arbennig yn rhan o goetiroedd derw. Mae'r dirywiad cyffredinol hwn yn ganlyniad i dulliau amhriodol o reoli, megis gorburi, ffafrio coed derw a thorri coed yn arwain at goed gwastad eu hoed a/neu ddirywiad dulliau traddodiadol o reoli coetiroedd megis coedlannu.

Mae ailgyflwyno Coedwigoedd Ynn Cymysg yr Uwchdiroedd yn hanfodol i sicrhau eu parhad dros gyfnod hir a'u cyfraniad i'r fioamrywiaeth.

Colli integriti genetig:

Mae Coedwigoedd Ynn Cymysg yr Uwchdiroedd yn agored i golli eu hintegriti genetig o ganlyniad i ailstocio â stoc estron yn y gorffennol. Dylid annog caniatáu i goedwigoedd ymadfer yn naturiol a defnyddio stoc gynhenid wrth ailblannu yn hytrach na stoc nad yw'n gynhenid.

Rhywogaethau estron ymwithiol:

Yn y gorffennol, cyflwynwyd rhywogaethau estron ymwithiol o 'chwyn' megis llawryf a rhododendron mewn Coedwigoedd Ynn Cymysg yr Uwchdiroedd, law yn llaw yn aml â'r dulliau o reoli helwriaeth. Gwelir rhai o'r Coedwigoedd Ynn Cymysg llai o faint ar yr Uwchdiroedd yn cael eu trafylncu gan y rhywogaethau hyn gan effeithio'n andwyol ar yr haenau ar y ddaear ac ar y llwyni ac, yn y pen draw, ar y coedwigoedd eu hunain. Mae llysiâu'r dial i'w gweld hefyd mewn rhai Coedwigoedd Cymysg yr Uwchdiroedd gan fygwth eu hadeiledd ac amrywiaeth eu rhywogaethau. Dylid rheoli neu ddiffa pob rhywogaeth estron ymwithiol o 'chwyn' megis y rhain yn y Coedwigoedd Ynn Cymysg yr Uwchdiroedd, fel y bo'n briodol.

Newid hinsoddol:

Mae'r stormydd mwy rheolaidd a mwy garw sydd wedi'u rhagfynegi o ganlyniad i'r newid yn yr hinsawdd yn debygol o effeithio'n andwyol ar y coetiroedd a nodweddir gan adeiledd lle bo unffurfiaeth o ran oed. Maent eisoes yn fwy agored i'w difrodi gan stormydd. Mae ailgyflwyno amrywiaeth adeileddol a chynnal yr amrywiaeth genetig yn elfennau hanfodol yn y broses o sicrhau y gall Coedwigoedd Ynn Cymysg yr Uwchdiroedd oddef ac addasu i newidiadau tymor hir yn yr hinsawdd.

C. CAMAU GWEITHREDU SYDD AR Y GWEILL

Diogelu'r Safle:

Gellir defnyddio mecanweithiau anstatudol a statudol i ddiogelu safleoedd, e.e.

dynodi Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig, defnyddio Gorchmynion Cadw Coed ar gyfer coetiroedd a rheoli torri coed; cysylltu â pherchenogion coetiroedd drwy Coed Cymru a rhoi cefnogaeth iddynt' Cynllun Grant Coetiroedd Comisiwn Coedwigaeth Cymru, Grantiau Gwella Coetiroedd a chynllun amaeth-amgylcheddol Tir Gofal Cyngor Cefn Gwlad Cymru.

Monitro ac arolygu:

Caiff pob Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig ei fonitro lle bo yno Goedwigoedd Ynn Cymysg yr Uwchdiroedd ac ar safleoedd a reolir gan bartneriaid unigol. Bydd Comisiwn Coedwigaeth Cymru yn monitro cydymffurfiaeth ag amodau Trwydded Torri Coed neu Gynllun Grant Coetiroedd.

Integriti genetig:

Fe'i sicreir drwy hybu caniatáu i goedwigoedd ymadfer yn naturiol a defnyddio rhywogaethau cynhenid wrth ailblannu.

Rheoli cynefinoedd:

Fe'i gwelir ar safleoedd unigol, e.e. gwarchodfeydd natur gan bartneriaid.

Ail-greu/adfer cynefinoedd:

Caiff ei hyrwyddo ar safleoedd priodol, e.e. safleoedd coetiroedd hynafol, ac i greu cysylltiadau rhwng Goedwigoedd Ynn Cymysg yr Uwchdiroedd.

Cyngor a chyswllt:

Fe'u darparwyd ar gyfer perchenogion a ffermwyr ar goetiroedd ar gyfer pob agwedd ar y gwaith o reoli coetiroedd ac ymestyn Goedwigoedd Ynn Cymysg neu greu rhai o'r newydd.

D. YR AMCAN A'R TARGEDAU

Yr Amcan: sicrhau amodau ffafriol ar gyfer Goedwigoedd Ynn Cymysg yr Uwchdiroedd yng Ngheredigion gan gyflawni'r targedau canlynol:

- y caiff y maint presennol (e.e. 0.5% o arwynebedd y Sir) ei gynnal;
- bod yna estyniad pellach o 100 hectar (cynnydd o 10%) by 2006;
- adfer Goedwigoedd Ynn Cymysg lled-naturiol yr Uwchdiroedd i 100 hectar (adferiad o 10%) ar safleoedd coetiroedd hynafol erbyn 2006;
- mewn rhai safleoedd enghreifftiol:
 - i. mae cyfansoddiad y rhywogaethau a geir yn y canopi, yr isdyfiant, y prysgoed a phlanhigion y ddaear yn briodol i Goedwigoedd Ynn Cymysg yr Uwchdiroedd yng Nghymru;
 - ii. mae adeiledd oed y coetiroedd yn amrywiol, lle bo lleiafswm o 10% o gyfanswm arwynebedd y coetir yn cynnwys coed llai nag 20 mlwydd oed, a 10% o goed aeddfed a llwyni i'w gadael i dyfu'n aeddfed;
 - iii. bydd coed marw yn bresennol, sef 20% o'r cyfaint; mae rhywogaethau nad ydynt yn gynhenid (ffawydd a sycamorwydd yn arbennig) o fewn y terfynau derbynol (a ddiffiniwyd rhwng 5-10% o'r gorchudd canopi);
 - iv. mae rhywogaethau ymwithiol estron o 'chwyn' (e.e. llysiâu'r dial, llawryf a rhododendron) yn cael eu rheoli neu'n absennol.

Eu cyflwr ar hyn o bryd:

Ystyrir bod Goedwigoedd Ynn Cymysg yr Uwchdiroedd yng Ngheredigion mewn cyflwr ANFFAFRIOL/YN DIRYWIO.

E. CYNLLUN GWEITHREDU AMLINELLOL – COED YNN CYMYSG YR UWCHDIROEDD

Partner Arweiniol: Comisiwn Coedwigaeth Cymru

	Camau Gweithredu	Sefydliad
1	Polisi a Deddfwriaeth	
1.1	Sicrhau y caiff y cynefin ei ddiogelu a'i hyrwyddo drwy gyfrwng cynlluniau strategol perthnasol (e.e. y Cynllun Datblygu Unedol).	CCC, CC, CCGC
1.2	Sicrhau y defnyddir deddfwriaeth, safonau a chanllawiau yn ymwneud â choedwigaeth er mwyn cyflawni amcanion y Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol	CCC
1.3	Sicrhau, lle bo'n briodol, fod y dulliau rheoli coetiroedd yn cwrdd â'r safonau i'w hardystio.	CCC
1.4	Cefnogi datblygu cynlluniau sy'n hyrwyddo rheoli coetiroedd drwodd i'r defnydd gorffenedig a wneir o'r pren a'r marchnadoedd ar gyfer cynnyrch pren.	CCC, CCGC, CSC, ADC
2	Diogelu a Rheoli Safleoedd	
2.1.	Hybu trosi planhigfeydd conwydd ar Safleoedd Coetiroedd Hynafol yn goetir cynhenid ei gymeriad gyda chymorth grant lle bo'n briodol.	CCC, CCGC, CSC, UCA, UAC, CLA, AAMG/CCGC(TG)
2.2	Annog a chefnogi defnyddio dulliau adfywio naturiol a/neu ddefnyddio stoc o rywogaethau cynhenid a lleol wrth blannu.	CCC, PCC, CCGC, UCA, UAC, CLA, AAMG/CCGC(TG)
2.3	Ymestyn dulliau positif o reoli'r holl Goedwigoedd Ynn Cymysg ar yr Ucheldir gan gynnwys arolwg o'r safle a chynhyrchu cynllun rheoli drwy Gynllun Grant Coetiroedd y Comisiwn Coedwigaeth a Thir Gofal.	CCC, CCGC, AAMG, AAMG/CCGC(TG)
2.4	Cefnogi dulliau o reoli coetiroedd drwy ddatblygu marchnadoedd ar gyfer cynnyrch coetiroedd cynaliadwy a Choed Cymru.	CCC, CCGC, CSC
2.5	Cefnogi tystysgrifau FSC.	CCC, YBGGC, CCGC, CSC
2.6	Nodi ardaloedd addas i ail-greu Coedwigoedd Ynn Cymysg yr Uwchdiroedd ac i greu coetiroedd newydd o gwmpas y safleoedd hyn, gan greu partneriaethau i'w sefydlu fel y bo angen, drwy'r Cynllun Tir Coed.	CCC, CSC, CCGC
2.7	Parhau i roi cymorth a chynghor ynglyn â Choedwigoedd Ynn Cymysg yr Uwchdiroedd i dirfeddianwyr/rheolwyr tir a chodi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o faterion yn ymwneud â choetiroedd.	CCC, CSC
2.8	Diogelu Coedwigoedd Ynn Cymysg yr Uwchdiroedd drwy wneud Gorchmynion Cadw Coed lle bo'n briodol.	CSC

	Camau Gweithredu	Sefydliad
3	Ymchwil a Monitro	
3.1.	Monitro maint ac ansawdd Coedwigoedd Ynn Cymysg yr Uwchdiroedd gan gynnwys coetiroedd wedi'u hadfer a choetiroedd newydd er mwyn gweld eu cyflwr.	CCC, CCGC, CSC
3.2.	Darganfod y bylchau yn y wybodaeth a gwneud rhagor o arolygiadau fel y bo'n briodol.	CCC, CCGC, CSC
4	Cyfathrebu a Chyhoedduswydd	
4.1	Hyrwyddo hyfforddiant ac ymwybyddiaeth ymhlith y cyhoedd o ddulliau rheoli coetiroedd cynhenid drwy seminarau a gweithdai ayb.	CCC, CCGC, UCA, UAC, CLA.

F. GOFYNIION ADNODDAU

Bydd adnoddau ychwanegol yn ofynnol er mwyn datblygu a/neu weithredu'r pwyntiau canlynol:

1.4, 2.1, 2.2, 2.3, 2.4, 2.5, 2.6, 3.1, a 3.2.

Dyddiad:

Paratowyd y Cynllun Gweithredu gan Gomisiwn Coedwigaeth Cymru, Chwefror 2001.

Cynllun Gweithredu Cynefinoedd: COEDWIGOEDD DERW YR UWCHDIROEDD

A. RHAGARWEINIAD

Disgrifiad o'r cynefin:

Coed derw dail digoes sydd yng Nghoedwigoedd Derw Uwchdiroedd Ceredigion yn bennaf, ond mae coed bedw hefyd yn gyffredin gydag isdyfiant o goed bychan a llwyni cyll, cerddin a chelyn. Mae cyfansoddiad y planhigion ar hyd y ddaear yn amrywio mewn perthynas â nifer o ffactorau gan gynnwys ffrwythlondeb y ddaear, amodau draenio ac a ydy'r tir yn cael ei bori ai peidio. Gwelir clychau'r gog, mieri a rhedyn gan amlaf lle bo pridd da a grug, llusi duon bach a mwsogl lle bo'r pridd yn asidig ac yn brin o faetholynnau. Gall clytwaith o fathau eraill o rywogaethau coetirool fod yn bresennol hefyd yn ddibynnol ar gyflwr y ddaear. Er enghraifft, gall pridd â dw^r yn treiddio drwyddo fod yn gynhaliaeth i goed ynn a chyll gyda gorchudd toreithiog o blanhigion ar hyd y ddaear gan gynnwys planhigion megis bresych y cw^n a garleg gwyllt, a choed gwern yw'r rhywogaeth amlycaf ar bridd gwlyb tir corslyd neu linellau dw^r ffynnon. Mae yna amrywiaeth da o anifeiliaid hefyd gan gynnwys adar bridio megis y gwybedog cefnddu, tingochiaid a thelor y coed.

Eu dosbarthiad yn Ewrop a'r Deyrnas Unedig:

Mae Coedwigoedd Derw yr Uwchdiroedd (a mathau cysylltiedig) wedi'u cyfyngu i ymylon cefnforol gorllewin Ewrop, o gwmpas y Deyrnas Unedig ac Iwerddon, a rhai ardaloedd yn Norwy, Ffrainc, Sbaen a Phortiwgal. Mae gan y Deyrnas Unedig ac Iwerddon yr enghreifftiau mwyaf nodedig a datblygedig ac felly mae ganddynt gyfrifoldeb rhyngwladol sylweddol tuag at y cynefin.

O fewn y Deyrnas Unedig, gwelir y Coedwigoedd Derw yr Uwchdiroedd ar hyd de-orllewin Lloegr, Cymru, gogledd Lloegr (Cumbria yn arbennig) a'r Alban. Mae ansicrwydd ynglyn â chyfanswm yr ardal, o ganlyniad i restrau anorffenedig a chymhlethdodau ynglyn â therfynau'r diffiniad, ond amcangyfrifir ei fod o gwmpas 80,000 i 110,000 hectar. Mae gan Gymru o gwmpas 39,000 hectar sydd oddeutu 40% o adnoddau'r Deyrnas Unedig. Mae hyn o fewn canol cwmpas y Deyrnas Unedig ac yn cynnwys enghreifftiau o derfynau mwyaf dwyreiniol y cynefin. Mae gan Gymru, felly, gyfraniad sylweddol i'w wneud o safbwynt y cynllun gweithredu yma.

Gwelir y cynefin ledled Cymru ac mae'n cyfrif am ryw 50% o'r gorchudd coetirool lled-naturiol. Ceir y tyfiant mwyaf toreithiog ac amrywiol tua'r gorllewin.

Eu dosbarthiad yng Ngheredigion:

Coedwigoedd Derw yr Uwchdiroedd yw'r math mwyaf amlwg o goetiroedd yng Nghymru a gorchuddiant 2% o'r sir. Maent wedi'u cyfyngu yn bennaf i dir amaethyddol ymylol, megis ochrau dyffrynnoedd serth a llethrau anghysbell â chlogfeini ar eu hyd.

Tueddiadau:

Roedd coetiroedd yn gorchuddio rhyw 30% o'r sir hyd at 1600. Torrwyd mwy na 70% ohonynt i lawr er mwyn amaethu'r tir. Yn ystod yr 20fed ganrif collwyd mwy o Goedwigoedd Derw yr Uwchdiroedd o ganlyniad yn bennaf i'w trosi'n goedwigoedd conwydd. Heddiw, dim ond ar 2% o arwynebedd tir Ceredigion y ceir Coedwigoedd Derw yr Uwchdiroedd lled-naturiol hynafol. Mae darnio coedwigoedd, eu cwtogi o

ran eu maint a diffyg rheolaeth wedi cyfrannu at y dirywiad ym maint ac ansawdd Coedwigoedd Derw yr Uwchdiroedd fel yn wir y gwnaeth defnyddio dulliau amhriodol o'u rheoli (e.e. gorbori) a chyflwyno rhywogaethau estron ymwthiol megis sycamorwydd ac, mewn rhai achosion penodol, rhododendron.

Statws Cadwraeth:

Ewropeaidd: Rhestrwyd yn Atodiad 1 Cyfarwyddyd yr Undeb Ewropeaidd ar Gynefinoedd a Rhywogaethau.

Statws Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth y Deyrnas Unedig:

Uchel – Cynefin â blaenoriaeth y paratowyd cynllun gweithredu â chostau ar ei gyfer.

B. FFACTORAU SY’N EFFEITHIO AR Y CYNEFIN YNG NGHEREDIGION

Colli a darnio Coedwigoedd Derw Yr Uwchdiroedd:

Ychydig o ardaloedd mawr (h.y. mwy na 20 ha) â Choedwigoedd Derw yr Uwchdiroedd sydd ar ôl yng Ngheredigion. Mae'r rhan fwyaf o'r coedwigoedd yn fychan ac yn tyfu ar hyd sribedi cul ar ochrau dyffrynnoedd serth lle na allant gefnogi ystod lawn o amrywiaeth strwythurol a rhywogaethol. Byddai colli a/neu ddarnio'r math yma o goetir ymhellach yn annerbyniol. Yn ogystal â diogelu'r Coedwigoedd Derw sydd ar ôl dylid cymryd pob cyfle posib i'w hadfer ar safleoedd coedwigoedd hynafol (gan gynnwys safleoedd lle plannwyd coed conwydd) a thrwy ymestyn a chreu cysylltiadau newydd rhwng cynefinoedd coedwigoedd sydd eisoes yn bod.

Defnyddio dulliau amhriodol o reoli coetiroedd neu ddiffyg rheolaeth:

Yn ystod y ganrif ddiwethaf, bu dirywiad yn ansawdd nifer o Goedwigoedd Derw yr Uwchdiroedd: collwyd yr amrywiaeth rhywogaethol ac adeileddol, a hefyd allu'r coedwigoedd unigol i'w hadfer eu hun. Mae'r dirywiad cyffredinol hwn yn ganlyniad i ddefnyddio dulliau amhriodol o reoli, megis gorbori, a thorri coed yn arwain at goed gwastad eu hoed a/neu ddirywiad dulliau rheoli coetiroedd traddodiadol megis coedlannu.

Mae ailgyflwyno Coedwigoedd Derw yr Uwchdiroedd yn hanfodol i sicrhau eu parhad dros gyfnod hir a'u cyfraniad i'r fioamrywiaeth.

Colli integriti genetig:

O ganlyniad i groesi'r dderwen goesynnog a'r dderwen ddigoes mae cryn dipyn o amrywiaeth yng Nghoedwigoedd Derw Uwchdiroedd Ceredigion. Gallent, fodd bynnag, golli eu hintegriti genetig o ganlyniad i'r duedd yn y gorffennol o ailstocio â stoc estron. Dylid annog caniatáu i goedwigoedd ymadfer yn naturiol a defnyddio stoc gynhenid wrth ailblannu yn hytrach na stoc nad yw'n gynhenid.

Rhywogaethau estron ymwthiol:

Yn y gorffennol, cyflwynwyd rhywogaethau estron ymwthiol o 'chwyn' megis llawryf a rhododendron mewn Coedwigoedd Derw Cymysg cynhenid yr Uwchdiroedd, law yn llaw yn aml â'r dulliau o reoli helwriaeth. Gwelir rhai o'r Coedwigoedd Derw llai ar yr Uwchdiroedd yn cael eu trafylncu gan y rhywogaethau hyn gan effeithio'n andwyol ar yr haenau ar y ddaear ac ar y llwyni, ac yn y pen draw, ar y coedwigoedd eu hunain. Mae llysiâu'r dial i'w gweld hefyd mewn rhai Coedwigoedd Derw ar yr Uwchdiroedd gan fygwth eu hadeiledd ac amrywiaeth eu rhywogaethau. Dylid rheoli neu ddifa pob rhywogaeth estron ymwthiol o 'chwyn' megis y rhain yng Nghoedwigoedd Derw yr Uwchdiroedd, fel y bo'n briodol.

Newid hinsoddol:

Mae'r stormydd mwy rheolaidd a mwy garw sydd wedi'u rhagfynegi o ganlyniad i'r newid yn yr hinsawdd yn debygol o effeithio'n andwyol ar y coetiroedd a nodweddir gan adeiledd lle bo unffurfiaeth o ran oed. Maent eisoes yn fwy agored i'w difrodi gan stormydd. Mae ailgyflwyno amrywiaeth adeileddol a chynnal yr amrywiaeth genetig yn elfennau hanfodol yn y broses o sicrhau y gall Coedwigoedd Derw yr Uwchdiroedd oddef ac addasu i newidiadau tymor hir yn yr hinsawdd.

C. CAMAU GWEITHREDU SYDD AR Y GWEILL**Diogelu'r safle:**

Gellir defnyddio mecanweithiau anstatudol a statudol i ddiogelu safleoedd, e.e. dynodi Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig, defnyddio Gorchmynion Cadw Coed ar gyfer coetiroedd a rheoli torri coed; cysylltu â pherchenogion coetiroedd drwy Coed Cymru a rhoi cefnogaeth iddynt, Cynllun Grant Coetiroedd Comisiwn Coedwigaeth Cymru, Grantiau Gwella Coetiroedd a chynllun amaeth-amgylcheddol Tir Gofal Cyngor Cefn Gwlad Cymru.

Monitro ac arolygu:

Caiff pob Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig ei fonitro lle bo yno Goedwigoedd Derw yr Uwchdiroedd ac ar safleoedd a reolir gan bartneriaid unigol. Bydd Comisiwn Coedwigaeth Cymru yn monitro cydymffurfiaeth ag amodau Trwydded Torri Coed neu Gynllun Grant Coetiroedd.

Integriti genetig:

Fe'i sicrhau drwy hybu caniatáu i goedwigoedd ymadfer yn naturiol a defnyddio rhywogaethau cynhenid wrth ailblannu.

Rheoli cynefinoedd:

Fe'i gwelir ar safleoedd unigol, e.e. gwarchodfeydd natur gan bartneriaid.

Ail-greu/adfer cynefinoedd:

Caiff ei hyrwyddo ar safleoedd priodol, e.e. safleoedd coetiroedd hynafol, ac i greu cysylltiadau rhwng Coedwigoedd Derw yr Uwchdiroedd sydd eisoes yn bod.

Cyngor a chyswllt:

Fe'u darparwyd ar gyfer perchenogion a ffermwyr ar goetiroedd ar gyfer pob agwedd ar y gwaith o reoli coetiroedd ac ymestyn hen Goedwigoedd Derw neu greu rhai o'r newydd.

D. YR AMCAN A'R TARGEDAU

Yr Amcan: sicrhau amodau ffafriol ar gyfer Coedwigoedd Derw yr Uwchdiroedd yng Ngheredigion gan gyflawni'r targedau canlynol:

- y caiff y maint presennol (e.e. 2% o arwyneb arwynebedd y Sir) ei gynnal;
- bod yna estyniad pellach o 370 hectar (cynnydd o 10%) erbyn 2006;
- adfer Coedwigoedd Derw lled-naturiol ar yr Uwchdiroedd i 370 hectar (adferiad o 10%) mewn safleoedd coetiroedd hynafol erbyn 2006;
- mewn rhai safleoedd:
 - i. mae cyfansoddiad y rhywogaethau a geir yn y canopi, yr isdyfiant, y prysgoed a phlanhigion y ddaear yn briodol i Goedwigoedd Derw Uwchdiroedd Ceredigion;

- ii. mae adeiledd oed y coetiroedd yn amrywiol, lle bo lleiafswm o 10% o gyfanswm arwynebedd y coetir yn cynnwys coed llai nag 20 mlwydd oed, a 10% o goed aeddfed a llwyni i'w gadael i dyfu'n aeddfed;
- iii. bydd coed marw yn bresennol, sef 20% o'r cyfaint; mae rhywogaethau nad ydynt yn gynhenid (ffawydd a sycamorwydd yn arbennig) o fewn y terfynau derbynol (a ddiffiniwyd rhwng 5-10% o'r gorchudd canopi);
- iv. mae rhywogaethau ymwithiol estron o 'chwyn' (e.e. llysiâu'r dial, llawryf a rhododendron) yn cael eu rheoli neu'n absennol.

Eu cyflwr ar hyn o bryd:

Ystyrir bod Coedwigoedd Derw yr Uwchdiroedd yng Ngheredigion yn ANFFAFRIOL/YN DIRYWIO

E. CYNLLUN GWEITHREDU AMLINELLOL – COED DERW YR UWCHDIROEDD

Partner Arweiniol: Comisiwn Coedwigaeth Cymru

	Camau Gweithredu	Sefydliad
1	Polisi a Deddfwriaeth	
1.1	Sicrhau y caiff y cynefin ei ddiogelu a'i hyrwyddo drwy gyfrwng cynlluniau strategol perthnasol (e.e. y Cynllun Datblygu Unedol).	CCC, CSC, CCGC
1.2	Sicrhau y defnyddir deddfwriaeth, safonau a chanllawiau yn ymwneud â choedwigaeth er mwyn cyflawni amcanion y Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol	CCC
1.3	Sicrhau, lle bo'n briodol, fod y dulliau rheoli coetiroedd yn cwrdd â'r safonau i'w hardystio.	CCC
1.4	Cefnogi datblygu cynlluniau sy'n hyrwyddo rheoli coetiroedd drwodd i'r defnydd gorffenedig a wneir o'r pren a'r marchnadoedd ar gyfer cynnyrch pren.	CCC, CCGC, CSC, ADC
2	Diogelu a Rheoli Safleoedd	
2.1	Hybu trosi planhigfeydd cowydd ar Safleoedd Coetiroedd Hynafol yn goetir cynhenid ei gymeriad gyda chymorth grant lle bo'n briodol.	CCC, CCGC, CSC, UCA, UAC, CLA, AAMG/CCGC(TG)
2.2	Annog a chefnogi defnyddio dulliau adfywio naturiol a/neu ddefnyddio stoc o rywogaethau cynhenid a lleol wrth blannu.	CCC, PCC, CCGC, UCA, UAC, CLA, AAMG/CCGC(TG)
2.3	Ymestyn dulliau positif o reoli holl Goedwigoedd Derw'r Uwchdiroedd gan gynnwys arolwg o'r safle a chynhyrchu cynllun rheoli drwy Gynllun Grant Coetiroedd y Comisiwn Coedwigaeth a Thir Gofal.	CCC, CCGC, AAMG, AAMG/CCGC(TG)
2.4	Cefnogi dulliau o reoli coetiroedd drwy ddatblygu marchnadoedd ar gyfer cynnyrch coetiroedd cynaliadwy a Choed Cymru.	CCC, CCGC, CSC
2.5	Cefnogi tystysgrifau FSC.	CCC, YBGGC, CCGC, CSC

	Camau Gweithredu	Sefydliad
2.6.	Nodi ardaloedd addas i ail-greu Coedwigoedd Derw'r Uwchdiroedd ac i greu coetiroedd newydd o gwmpas y safleoedd hyn, gan greu partneriaethau i'w sefydlu fel y bo angen, drwy'r Cynllun Tir Coed.	CCC, CSC, CCGC
2.7.	Parhau i roi cymorth a chynghor ynglyn â Choedwigoedd Derw'r Uwchdiroedd i dirfeddianwyr/rheolwyr tir a chodi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o faterion yn ymwneud â choetiroedd.	CCC, CSC
2.8	Diogelu Coedwigoedd Derw'r Uwchdiroedd drwy wneud Gorchmynion Cadw Coed lle bo'n briodol.	CSC
3	Ymchwil a Monitro	
3.1.	Monitro maint ac ansawdd Coedwigoedd Derw'r Uwchdiroedd gan gynnwys coetiroedd wedi'u hadfer a choetiroedd newydd er mwyn gweld eu cyflwr.	CCC, CCGC, CSC
3.2.	Darganfod y bylchau yn y wybodaeth a gwneud rhagor o arolygiadau fel y bo'n briodol.	CCC, CCGC, CSC
4	Cyfathrebu a Chyhoedduswydd	
4.1	Hyrwyddo hyfforddiant ac ymwybyddiaeth ymhlith y cyhoedd o ddulliau rheoli coetiroedd cynhenid drwy seminarau a gweithdai ayb.	CCC, CCGC, UCA, UAC, CLA.

F. GOFYNION ADNODDAU

Bydd adnoddau ychwanegol yn ofynnol er mwyn datblygu a/neu weithredu'r pwyntiau canlynol:

1.4, 2.1, 2.2, 2.3, 2.4, 2.5, 2.6, 3.1, a 3.2.

Dyddiad:

Paratowyd y Cynllun Gweithredu gan Gomisiwn Coedwigaeth Cymru, Chwefror 2001.

Cynllun Gweithredu Cynefinoedd: COETIROEDD GWLYB

A. RHAGARWEINIAD

Disgrifiad o'r cynefin:

Yng Ngheredigion ceir coetiroedd gwlyb ar bridd lle bo'r draeniad yn wael neu bridd sy'n wlyb yn ôl y tymor. Y rhywogaethau coed mwyaf amlwg yw coed gwern, bedw a helyg ond mae hefyd yn cynnwys coed ynn a derw ar hyd y glannau mwy sych. Ceir coetiroedd gwlyb ar orlifdiroedd, megis cynefinoedd olynol ar ffeniau, tiroedd lleidiog a chorsydd, ar hyd afonydd a thyfiant ar ochr y bryniau ac mewn pantiau wedi'u leinio â chlai. Ceir y coetiroedd hyn ar briddoed gwahanol sy'n cynnwys mawn asidig, mwynol llawn maetholynnau, calchfaen a gwahanol fathau o glai.

Eu dosbarthiad yn Ewrop ac yn y Deyrnas Unedig:

Ceir coetiroedd gwlyb ledled Ewrop ac mae perthynas agos rhwng nifer ohonynt a'r rhai a geir yn y Deyrnas Unedig. Mae rhai coedwigoedd ar orlifdiroedd ledled y rhan fwyaf o Ewrop ond gwelir yr enghreifftiau mwyaf ger afonydd megis Y Rhôn a'r Donwy. Yn y Deyrnas Unedig mae yna lawer o goetiroedd gwlyb ond ceir gwahanol fathau mewn gwahanol ardaloedd. Yn Nwyrain Anglia, Swydd Amwythig a Swydd Gaer fe'u ceir yn bennaf ar y ffeniau tra ceir coedwigoedd gwern ar lethrau brynau yng Nghymru, Cumbria a'r Alban yn bennaf. Yn yr Alban yn bennaf y gwelir coetiroedd corsiog. Mae coedwigoedd ar orlifdir yn brin ac yn wasgaredig. Amcangyfrifir bod cyfanswm y coetiroedd gwlyb yn y Deyrnas Unedig rhwng 50,000 a 70,000 hectar ac mae tua 10% ohonynt yng Nghymru. Mae gan Gymru gyfrifoldeb arbennig tuag at goedwigoedd gwern ar lethrau brynau, amrywiadau cefnforol ar goetiroedd ffen, ac am ddiogelu ac adfer coetiroedd gorlifdiroedd lle bo hynny'n bosib.

Eu dosbarthiad yng Ngheredigion:

Coetiroedd gwlyb yw'r trydydd math mwyaf amlwg o goetiroedd lled-naturiol yng Ngheredigion a gorchuddiant 0.2% o'r sir. Gwelir coetiroedd gwlyb fel rheol yn rhan o fosäig gyda gwahanol fathau o gynefinoedd allweddol coetiroedd.

Tueddiadau:

Roedd coetiroedd yn gorchuddio rhyw 30% o'r sir hyd at 1600. Yn raddol, torrwyd mwy na 70% ohonynt i lawr er mwyn amaethu'r tir. Erbyn 1790, am nad oedd unrhyw reolaeth ar dorri'r coed, aeth pren yn brin. Dim ond ar 7% o arwynebedd y tir y ceir coedwigoedd bellach ac mae llai na 0.2% ohonynt yn goetiroedd gwlyb. Collwyd rhagor o goetiroedd gwlyb yn ystod y ganrif yma am i'r coed gael eu torri lawr er mwyn defnyddio'r tir at ddibenion eraill, am nad yw'r safleoedd a fu gynt yn goedlannau yn cael eu rheoli mwyach, oherwydd y gostyngiad yn lefelau'r dw^r ffynnon o ganlyniad i ddraenio neu dynnu dw^r ac oherwydd y caniatwyd lefelau amhriodol o bori ac i ddefaid a gwartheg ddifetha'r pridd.

Statws Cadwraeth:

Ewropeaidd: Rhestrwyd yn Atodiad 1 Cyfarwyddyd yr Undeb Ewropeaidd ar Gynefinoedd a Rhywogaethau.

Statws Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth y Deyrnas Unedig:

Mae coetiroedd gwlyb yn gynefin y rhoddir blaenoriaeth iddo yng Nghynllun Gweithredu Bioamrywiaeth y Deyrnas Unedig a pharatowyd cynllun gweithredu â chostau ar ei gyfer.

B. FFACTORAU SY’N EFFEITHIO AR Y CYNEFIN YNG NGHEREDIGION

Colli a darnio Coetiroedd Gwlyb:

Roedd hi'n arfer yn yr 20fed ganrif i waredu'n llwyr, draenio, torri coed i lawr a throï at blannu coed conwydd. Ychydig o ardaloedd mawr (h.y. mwy na 5 ha) â Choetiroedd Gwlyb sydd ar ôl yng Ngheredigion. Mae'r rhan fwyaf o'r coedwigoedd yn fychan ac yn tyfu ar hyd strybedi cul ar waelod dyffrynnoedd lle na allant gynnal ystod lawn o amrywiaeth strwythurol a rhywogaethol. Byddai colli a/neu ddarnio'r math yma o goetir ymhellach yn annerbyniol. Yn ogystal â diogelu'r Coetiroedd Gwlyb sydd ar ôl dylid cymryd pob cyfle posib i'w hadfer ar safleoedd coedwigoedd hynafol (gan gynnwys safleoedd lle plannwyd coed conwydd) a thrwy ymestyn a chreu cysylltiadau newydd rhwng cynefinoedd coedwigoedd sydd eisoes yn bod.

Defnyddio dulliau amhriodol o reoli coetiroedd neu ddiffyg rheolaeth:

Yn ystod y ganrif ddiwethaf, bu dirywiad yn ansawdd nifer o Goetiroedd Gwlyb Ceredigion: collwyd yr amrywiaeth rhywogaethol ac adeileddol, a hefyd Gallu'r coedwigoedd unigol i'w hadfer eu hun. Mae'r dirywiad cyffredinol hwn yn ganlyniad i ddefnyddio dulliau amhriodol o reoli, megis gostwng lefelau'r dw'r ffynnon, gorburi, a gwaredu'n llwyr a dirywiad coedlannau.

Colli integriti genetig:

Gall Coetiroedd Gwlyb gollu eu hintegriti genetig o ganlyniad i ailstocio â stoc estron. Dylid annog caniatáu i goedwigoedd ymadfer yn naturiol a defnyddio stoc gynhenid wrth ailblannu yn hytrach na stoc nad yw'n gynhenid.

Draenio:

O ganlyniad i ddraenio'r tir collwyd enghreifftiau o Goetiroedd Gwlyb a lle digwyddodd hyn cyn plannu coed conwydd mi fydd hi'n anodd iawn eu hadfer mewn rhai safleoedd. Bydd cyfle i wydroi gwaith draenio blaenorol ac ail greu'r amodau llaith yn hanfodol i ymestyn a chynnal y Coetiroedd Gwlyb. Mae'n bosib y ceir cyfle i wneud hyn wrth reoli gorlifdroedd er mwyn helpu i liniaru ar y problemau a gafwyd o ganlyniad i lifogydd yng Ngheredigion yn ddiweddar.

Rhywogaethau estron ymwithiol:

Mae'r ffromlys chwarennog a llysiâu'r dial yn bresennol mewn rhai coetiroedd gwlyb ac mae hyn yn fygythiad uniongyrchol i'w hadeiledd ac amrywiaeth eu rhywogaethau. Mae rhai o'r coetiroedd gwlyb llai yn cael eu meddiannu fwyfwy gan y rhywogaethau hyn ac mae hyn yn andwyol i'r haenau ar lefel y ddaear a'r llwyni ac, yn y pen draw, i'r coedwigoedd eu hun. Dylid rheoli neu ddifa pob rhywogaeth estron ymwithiol o 'chwyn' fel y bo'n briodol.

Newid hinsoddol:

Mae'r stormydd mwy rheolaidd a mwy garw sydd wedi'u rhagfynegi o ganlyniad i'r newid yn yr hinsawdd yn debygol o effeithio'n andwyol ar y coetiroedd a nodweddir gan adeiledd lle bo unffurfiaeth o ran oed. Maent eisoes yn fwy agored i'w difrodi gan stormydd. Mae ailgyflwyno amrywiaeth adeileddol a chynnal yr amrywiaeth genetig yn elfennau hanfodol yn y broses o sicrhau y gall Coetiroedd Gwlyb oddef ac addasu i newidiadau tymor hir yn yr hinsawdd. Gall rheoli gorlifdroedd yn barod ar gyfer newidiadau i'r hinsawdd gynnig mwy o gyfleoedd i goetiroedd Gwlyb (gweler uchod).

Heintiau:

Mae'r clefyd *Phytophthora* sy'n ymosod ar y gwreiddiau yn destun gofid ac mae'n broblem sy'n effeithio ar goed gwern yn arbennig. Ymloda'n hawdd ar hyd cyrsiau dw'r a gall effeithio ar waith plannu i'r dyfodol. Fe'i yng Ngheredigion ac mae wedi'i gofnodi yng Nghwm Ystywyth a mannau eraill. Bydd monitro presenoldeb a

lledaeniad y clefyd a'i effeithiau tymor tir yn hanfodol i barhad tymor hir coed gwern a nodi dulliau priodol o reoli coed gwern mewn coetiroedd Gwlyb a mannau eraill.

C. CAMAU GWEITHREDU SYDD AR Y GWEILL

Diogelu'r Safle:

Gellir defnyddio mecanweithiau anstatudol a statudol i ddiogelu safleoedd, e.e. dynodi Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig, defnyddio Gorchmynion Cadw Coed ar gyfer coetiroedd a rheoli torri coed; cysylltu â pherchenogion coetiroedd drwy Coed Cymru a rhoi cefnogaeth iddynt, Cynllun Grant Coetiroedd Comisiwn Coedwigaeth Cymru, Grantiau Gwella Coetiroedd a chynllun amaeth-amgylcheddol Tir Gofal Cyngor Cefn Gwlad Cymru.

Monitro ac arolygu:

Caiff pob Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig ei fonitro lle bo yno Goetiroedd Gwlyb ac ar safleoedd a reolir gan bartneriaid unigol. Bydd Comisiwn Coedwigaeth Cymru yn monitro a chydymffurfiaeth ag amodau Trwydded Torri Coed neu Gynllun Grant Coetiroedd.

Integriti Genetig:

Fe'i sicrhair drwy hybu caniatáu i goedwigoedd ymadfer yn naturiol a defnyddio rhywogaeth gynhenid wrth ailblannu.

Rheoli cynefinoedd:

Fe'i gwelir ar safleoedd unigol, e.e. gwarchodfeydd natur gan bartneriaid.

Ail-greu/adfer cynefinoedd:

Caiff ei hyrwyddo ar safleoedd priodol, e.e. safleoedd coetiroedd hynafol, ac i greu cysylltiadau rhwng Coetiroedd Gwlyb sydd eisoes yn bod.

Cyngor a chyswllt:

Fe'u darparwyd ar gyfer perchenogion a ffermwyr ar goetiroedd ar gyfer pob agwedd ar y gwaith o reoli coetiroedd ac ymestyn Coedwigoedd Coetiroedd Gwlyb newydd neu greu rhai o'r newydd.

D. YR AMCAN A'R TARGEDAU

Yr Amcan: sicrhau amodau ffafriol ar gyfer Coetiroedd Gwlyb yng Ngheredigion gan gyflawni'r targedau canlynol:

- y caiff y maint presennol (e.e. 0.2% o arwyneb arwynebedd y Sir) ei gynnal;
- bod yna estyniad pellach o 47 hectar (cynnydd o 10%) erbyn 2006;
- adfer Coetiroedd Gwlyb lled-naturiol i 47 hectar (adferiad o 10%) mewn safleoedd coetiroedd hynafol erbyn 2006;
- mewn rhai safleoedd:
 - i mae cyfansoddiad y rhywogaethau a geir yn y canopi, yr isdyfiant, y prysgoed a phlanhigion y ddaear yn briodol i Goetiroedd Gwlyb Ceredigion;
 - ii mae adeiledd oed y coetiroedd yn amrywiol, lle bo lleiafswm o 10% o gyfanswm arwynebedd y coetir yn cynnwys coed adfywio llai nag 20 mlwydd oed, a 10% o goed aeddfed a llwyni i'w gadael i dyfu'n aeddfed;
 - iii bydd coed marw yn bresennol, sef 20% o'r cyfaint; lleihau'r perygl cynyddol o'r clefyd *Phytophthora* sy'n effeithio ar rywogaeth coed gwern;
 - iv mae rhywogaethau ymwithiol estron o 'chwyn' (e.e. ffromlys chwarennog) yn cael eu rheoli neu'n absennol.

Eu cyflwr ar hyn o bryd:

**Ystyrir bod coetiroedd gwlyb yng Ngheredigion yn
ANFFAFRIOL/YN DIRYWIO**

E. CYNLLUN GWEITHREDU AMLINELLOL – COETIROEDD GWLYB

Partner Arweiniol: Comisiwn Coedwigaeth Cymru

	Camau Gweithredu	Sefydliad
1	Polisi a Deddfwriaeth	
1.1	Sicrhau y caiff y cynefin ei ddiogelu a'i hyrwyddo drwy gyfrwng cynlluniau strategol perthnasol (e.e. y Cynllun Datblygu Unedol).	CCC, CSC, CCGC
1.2	Sicrhau y defnyddir deddfwriaeth, safonau a chanllawiau yn ymwneud â choedwigaeth er mwyn cyflawni amcanion y Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol	CCC
1.3	Sicrhau, lle bo'n briodol, fod y dulliau rheoli coetiroedd yn cwrdd â'r safonau i'w hardystio.	CCC
1.4	Cefnogi datblygu cynlluniau sy'n hyrwyddo rheoli coetiroedd drwodd i'r defnydd gorffenedig a wneir o'r pren a'r marchnadoedd ar gyfer cynnyrch pren.	CCC, CCGC, CSC, ADC
2	Diogelu a Rheoli Safleoedd	
2.1.	Hybu trosi planhigfeydd conwydd ar Safleoedd Coetiroedd Hynafol yn goetir cynhenid ei gymeriad gyda chymorth grant lle bo'n briodol.	CCC, CCGC, CSC, UCA, UAC, CLA, AAMG/CCGC(TG)
2.2	Annog a chefnogi defnyddio dulliau adfywio naturiol a/neu ddefnyddio stoc o rywogaethau cynhenid a lleol wrth blannu.	CCC, PCC, CCGC, UCA, UAC, CLA, AAMG/CCGC(TG)
2.3.	Ymestyn dulliau positif o reoli'r holl Goedwigoedd Coetiroedd Gwlyb gan gynnwys arolwg o'r safle a chynhyrchu cynllun rheoli drwy'r Cynllun Grant Coetiroedd FC a Thir Gofal.	CCC, CCGC, AAMG, AAMG/CCGC(TG)
2.4.	Cefnogi dulliau o reoli coetiroedd drwy ddatblygu marchnadoedd ar gyfer cynnyrch coetiroedd cynaliadwy a Choed Cymru.	CCC, CCGC, CSC
2.5.	Cefnogi tystysgrifau FSC.	CCC, YBGGC, CCGC, CSC
2.6.	Nodi ardaloedd addas i ail-greu coetiroedd gwlyb ac i greu coetiroedd newydd o gwmpas y safleoedd hyn, gan greu partneriaethau i'w sefydlu fel y bo angen, drwy'r Cynllun Tir Coed.	CCC, CSC, CCGC
2.7.	Parhau i roi cymorth a chynghor ynglyn â'r coetiroedd gwlyb i dirfeddianwyr/rheolwyr tir a chodi ymwybyddiaeth a dePawbtwriaeth o faterion yn ymwneud â choetiroedd.	CCC, CSC
2.8	Diogelu Coetiroedd gwlyb drwy wneud Gorchmynion Cadw Coed lle bo'n briodol.	CSC

	Camau Gweithredu	Sefydliad
3	Ymchwil a Monitro	
3.1.	Monitro maint ac ansawdd coetiroedd gwlyb gan gynnwys coetiroedd wedi'u hadfer a choetiroedd newydd er mwyn nodi eu cyflwr.	CCC, CCGC, CSC
3.2.	Darganfod y bylchau yn y wybodaeth a gwneud rhagor o arolygiadau fel y bo'n briodol.	CCC, CCGC, CSC
4	Cyfathrebu a Chyhoeddusrwydd	
4.1	Hyrwyddo hyfforddiant ac ymwybyddiaeth ymhlith y cyhoedd o dulliau rheoli coetiroedd cynhenid drwy seminarau a gweithdai ayb.	CCC, CCGC, UCA, UAC, CLA.

F. GOFYNION ADNODDAU

Bydd adnoddau ychwanegol yn ofynnol er mwyn datblygu a/neu weithredu'r pwyntiau canlynol:

1.4, 2.1, 2.2, 2.3, 2.4, 2.5, 2.6, 3.1, a 3.2.

Dyddiad:

Paratowyd y Cynllun Gweithredu gan Gomisiwn Coedwigaeth Cymru, Chwefror 2001.

Cynllun Gweithredu Cynefinoedd: LLEINIAU WRTH YMYL Y FFORDD

A. RHAGARWEINIAD

Disgrifiad o'r cynefin:

Mae 2245 cilometr o ffyrdd yng Ngheredigion. Tra bo gan Awdurdodau Priffyrdd ddyletswydd statudol (Adran 58, Deddf Priffyrdd 1980) i gynnal y priffyrdd yn ddiogel i sicrhau diogelwch defnyddwyr y ffyrdd (gyrwyr a cherddwyr), mae pwysigrwydd y lleiniau ar ymyl y ffordd yn cael ei gydnabod yn eang er mwyn hyrwyddo bioamrywiaeth. Maent yn bwysig am dri rheswm yn benodol:

- Fel cynefin gweddillol yn codi o golli cynefin 'naturiol' o ganlyniad i effaith y newidiadau mewn arferion amaethyddol a phwysau datblygu. Gallai'r ardaloedd yma dyfu i fod yn bwl genetig pwysig.
- Fel coridor i symud rhwng cynefinoedd ynysig.
- Fel ffynhonnell o fwyd a maeth naill ai yn uniongyrchol neu o fewn cadwyn fwyd gymhleth.

Mae cymunedau'r llystyfiant sydd yn y lleiniau hyn yn amrywio dipyn. Mae llawer o'r lleiniau, yn arbennig yn yr ardaloedd gwledig, yn adlewyrchu amrywiaeth mwy naturiol o blanhigion ac mewn ardaloedd lled-drefol, gwelwyd bod gwaith adeiladu diweddar ar hyd y ffyrdd wedi newid eu cymeriad naill ai o fwriad oherwydd y cymysgedd o hadau a'r cynlluniau plannu a ddefnyddiwyd neu yn ddamweiniol oherwydd y newid yn ansawdd cemegol y pridd. Cydnabyddir hefyd fod y dulliau rheoli a fabwysiedir gan Awdurdodau Priffyrdd yn dylanwadu ar gyfansoddiad y rhywogaethau. Mewn nifer o achosion, bu hyn o fudd, fodd bynnag, mewn rhai manau, mae planhigion estron ymwithiol megis llysiau'r dial yn dominyddu.

Gall lleiniau sy'n gyfoethog o ran eu rhywogaethau fod yn ddeniadol iawn, e.e. clytiau mawr o lygad llo bach fel y ceir ar hyd rhai cefnffyrdd, gwrychoedd o glychau'r gog, blodau menyn a thegeirianau ar hyd lonydd y wlad, y cyfan ohonynt yn ychwanegu at harddwch ac ansawdd y cefn gwlad. Mae rhinweddau o'r fath yn bwysig i ddelwedd Ceredigion gan eu bod yn cydnabod fod gan leiniau wrth ymyl y ffordd sy'n cael eu rheoli'n sensitif rôl bwysig i'w chwarae yn denu twristiaeth i'r sir.

Eu dosbarthiad yng Ngheredigion

Mae rhyw 4490 cilometr o leiniau wrth ymyl y ffordd o fewn y Sir, gan gynnwys y dosbarthiad canlynol:

	Cilometr	
	Hyd y ffordd (Cilometr)	Hyd y llain (Cilometr)
Cefnffyrdd	115	230
Dosbarth A	157	314
Dosbarth B a C	1172	2344
Diddosbarth	801	1602

Tueddiadau

Mae cynlluniau ffordd newydd a gwella/uwchraddio ffyrdd presennol yn arbennig ar hyd llwybrau strategol yn gyfle i greu lleiniau newydd wrth ymyl y ffordd yn ychwanegol at y cyfle sydd i wella'r amgylchedd.

Statws Cadwraeth:

Oni bai fod rhan o'r llain wrth ymyl y ffordd wedi'i dynodi fel Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig, nid oes mesurau diogelwch statudol.

Statws Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth y Deyrnas Unedig:

Nid yw lleiniau wrth ymyl y ffordd yn gynefin sy'n cael blaenoriaeth yng Nghynllun Gweithredu Bioamrywiaeth y Deyrnas Unedig. Fe'u hystyrir o bwys yn lleol fodd bynnag.

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru wedi comisiynu cynhyrchu Cynllun Gweithredu ar gyfer Stad y Cefnffyrdd yng Nghymru.

B. FFACTORAU SY'N EFFEITHIO AR Y CYNEFIN YNG NGHEREDIGION**Rheoli'n amhriodol:**

Gall torri porfa yn amhriodol godi o ganlyniad i'r canlynol:

■ Amseru:

Oherwydd y lleiniau glaswellt wrth ymyl y ffordd sydd yn y sir a'r ffaith fod y rhan fwyaf o'r ffyrdd yn perthyn i Ddosbarth B, C neu ddiddosbarth, bydd y tymor torri fel arfer yn dechrau ym mis Mehefin. Bydd torri yn rhy gynnar yn golygu y collir y ffynonellau pwysig o neithdar ac yn cyfyngu ar y cyfnod pryd y ffurfir ac y gwasgerir yr hadau. Mewn rhai achosion, gall y broses o dorri'r borfa effeithio'n uniongyrchol ar adar yn nythu a phryfed.

■ Amllder:

Lle bydd lleiniau yn cael eu torri'n gymharol gynnar yn ystod y tymor, bydd angen torri'r cyfryw leiniau yn amlach, fel arfer ddwywaith yn ychwanegol. Bydd peidio â thorri o gwbl neu'n rhy anaml yn golygu llai o amrywiaeth yn y glaswellt a mwy o brysgwydd a bydd torri'n rhy aml yn golygu y bydd glaswellt yn cael ei ddominyddu gan ddant y llew a llyriaid a diffyg adeiledd.

■ Torion:

Mae'n anorod y bydd torion ar ôl torri'r borfa a bydd hyn yn ffurfio haen o orchudd dros y pridd fel achles gan arwain at gynnydd yn nifer y rhywogaethau a fydd yn tyfu'n dal ac yn gyflym.

Defnyddio chwynladdwyr yn amhriodol:

Mae defnyddio chwynladdwyr yn ddull pwerus a derbyniol O reoli llystyfiant, gan gynnwys 'rhywogaethau chwyn'. Tra bo rheoliadau COSHH yn cyfyngu ar eu defnydd, gall technegau nad ydynt yn cael eu rheoli megis chwistrellu'n eang effeithio ar rywogaethau nad ydynt wedi'u targedu.

Rhywogaethau ymwithiol/estron:

Mae presenoldeb llysiâu'r dial yn broblem ddifrifol bellach, er na wyddom i ba raddau yn union y mae wedi lledu; dylai gael ei fesur. Fel arfer bydd y planhigyn yma, fel y ffromlys chwarennog, wedi lledu ar hyd y dyfrffosydd. Fodd bynnag, am amryw resymau, mae'r planhigyn i'w weld bellach ar hyd nifer o leiniau wrth ymyl y ffordd yn ogystal â thir dan berchenogaeth breifat lle mae'n bosib y bydd y tractorau a'r ffustiau a ddefnyddir i reoli lleiniau wrth ymyl y ffordd, yn cyfrannu at ei ledaeniad.

C. CAMAU GWEITHREDU SYDD AR Y GWEILL**Rheoli Tir:**

Bydd lleiniau wrth ymyl y ffordd yn cael eu cynnal a'u cadw er diogelwch er mwyn sicrhau y bydd modd gweld yn glir. Bydd lleiniau yn cael eu rheoli at ddibenion cadwraeth mewn manau penodol yn unig a ddynodwyd yn safleoedd sensitif.

Bydd gweithgareddau'r Cyngor Sir yn cael eu hadolygu'n rhan o'r broses 'Gwerth Gorau'. Fel gyda phob gwasanaeth, bydd y broses yma yn gyfle i wneud y gorau o reoli lleiniau wrth ymyl y ffordd.

Cyngor/cyswllt:

Rhoddir cyngor gan Gyngor Cefn Gwlad Cymru ac Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Gorllewin Cymru yn ystod y cyfnod ymgynghori lle argymhellir cynlluniau ar gyfer ffyrdd newydd.

Monitro ac arolygu:

Gwnaed rhywfaint o waith tirlfesur eisoes gan naturiaethwyr lleol. Dynodwyd hefyd rai safleoedd cadwraeth wrth ymyl y ffordd.

D. AMCANION A THARGEDAU

Amcan: sicrhau bod lleiniau wrth ymyl y ffordd yn cael eu rheoli'n ffafriol, lle na fydd diogelwch defnyddwyr y ffordd yn cael ei gyfyngu lle bo'r tragedd canlynol yn cael ei fodloni:

- Enwi 20 o ymylon allweddol wrth ochr y ffordd a sefydlu trefn reoli ffafriol erbyn 2004.

Cyflwr Presennol:

Ystyrir bod cyflwr lleiniau wrth ymyl y ffordd yng Ngheredigion yn amrywio.

E. CYNLLUN GWEITHREDU AMLINELLOL – LLEINIAU WRTH YMYL Y Ffordd

Partner Arweiniol: Cyngor Sir Ceredigion

	Camau Gweithredu	Sefydliad
1	Polisi a Deddfwriaeth	
1.1	Sicrhau y caiff y cynefin ei ddiogelu a'i hyrwyddo drwy gyfrwng cynlluniau strategol perthnasol (e.e. y Cynllun Datblygu Unedol).	CSC, Pawb
1.2	Sicrhau bod y protocol ar gyfer rheoli lleiniau wrth ymyl y ffordd yn sympathetig i natur gofynion cadwraeth.	CSC
1.3	Sicrhau bod cynlluniau ar gyfer ffyrdd newydd yn cael eu dylunio i gymryd i ystyriaeth nodweddion o ddiddordeb ecolegol a thirweddol.	CSC, CCGC, YBGGC
2	Diogelu a Rheoli Safleoedd	
2.1	Sefydlu cronfa ddata o leiniau pwysig wrth ymyl y ffordd yng Ngheredigion.	CSC, YBGGC, CCGC
2.2	Datblygu strategaeth i gael gwared â rhywogaethau ymwithiol estron, yn arbennig llyisiau'r dial.	CSC
3	Monitro ac Ymchwil	
3.1	Datblygu a hyrwyddo Cod Ymarfer Gorau.	CSC, UCA, UAC, CLA, YBGGC

	Camau Gweithredu	Sefydliad
4	Cyfathrebu a Chyhoedduswydd	
4.1	Codi ymwybyddiaeth ynglyn â phwysigrwydd lleiniau wrth ymyl y ffordd.	UCA, UAC, CLA, YBGGC, CSC.

F. GOFYNION ADNODDAU

Bydd adnoddau ychwanegol yn ofynnol er mwyn datblygu a/neu weithredu'r pwyntiau canlynol:

2.2, 3.1, 3.2.

Dyddiad:

Paratowyd y Cynllun Gweithredu gan Ymddiriedolaeth Bywyd Gwylt De a Gorllewin Cymru, Tachwedd 2000.

Cynllun Gweithredu Cynefinoedd: GRUGIEIR DUON (*Tetrao tetrix*)

A. RHAGARWEINIAD

Disgrifiad o'r cynefin:

Aderyn hela mawr du yw'r gwryw â chynffon delynaidd a marciau barrau gwyn trawiadol ar ei adenydd, o dan blu'r bôn a'r ysgwydd. Plu â barrau brown a du llai amlwg sydd i'r îar lai o faint. Gydol y rhan fwyaf o'r flwyddyn, yn y gwanwyn yn arbennig, bydd grwpiau o rugieir yn hel at ei gilydd i arddangos eu hunain mewn defodau cymhleth a elwir yn safleoedd paru. Gwneir hyn yn gynnar yn ystod y bore neu gyda'r cyfnos mewn llecynnau traddodiadol er mwyn denu'r ieir atynt i baru. Mae tuedd i'r safleoedd paru fod ar dir agored gyda llystyfiant byr megis corsydd mawn, llennyrch agored neu ymyl traciau coedwigoedd.

Yn y Deyrnas Unedig cânt eu cysylltu yn bennaf â choetiroedd sydd, yn aml yng Nghymru, ar ffurf planhigfeydd conwydd ifanc lle bydd yn uno â rhostir lle mae yna rug neu lusi duon bach. Mae llaciau gwlyb a gorgorsydd hefyd yn bwysig, yn arbennig ar gyfer anifeiliaid di-asgwrn-cefn sydd â chywion bach. Caiff nythod eu cuddio ar y ddaear yng nghanol llystyfiant hir, yng nghanol coed mewn llecyn sych sydd fel arfer wrth ymyl tyfiant neu lac gwlyb neu orgors.

Mae eu ffynhonnell fwy yn cynnwys planhigion yn bennaf; bydd eu math yn dibynnu ar yr hyn sydd ar gael yn ystod y flwyddyn. Bydd planhigion ifanc grug a llusi duon bach ymhlith eu prif fwyd ond ar rai adegau o'r flwyddyn byddant hefyd yn bwyta blagur plu'r gweunydd, aeron neu flagur coed ifanc, e.e. pinwydd, llarwydd, bedw ayb. Am yr ychydig wythnosau cyntaf o'u bywyd bydd y cywion bach yn bwyta anifeiliaid di-asgwrn-cefn yn bennaf.

Eu dosbarthiad yn Ewrop/y Deyrnas Unedig:

Mae'r grugieir duon wedi'u dosbarthu'n eang yn hanner gogleddol y Palearctig, er bod y boblogaeth yn wasgaredig ac yn dirywio yng ngorllewin Ewrop. Ym Mhrydain bydd yn bridio'n lleol yng ngogledd Lloegr ond mae i'w weld yn gyffredin yn yr Alban. Yng Nghymru, mae wedi'i ddosbarthu'n wasgaredig, ac mae i'w weld yn bennaf yn y gogledd. Nid yw'r rhywogaeth i'w gweld yn Iwerddon. Yn y Deyrnas Unedig mae'r boblogaeth yn cael ei bygwth yn dilyn dirywiad cyflym. Mae'r boblogaeth wedi gostwng o amcangyfrif o 25,000 o wrywod paru ym 1987 i oddeutu 6500 erbyn 1997.

Eu dosbarthiad yng Ngheredigion:

Yng Ngheredigion, anffafriol/dirywio fyddai'r disgrifiad mwyaf cywir ar gyfer y rhywogaeth ac mae'n debygol o ddarfod yn llwyr oni bydd camau yn cael eu cymryd ar frys. Y brif ardal lle cânt eu gweld yng Ngheredigion yw'r darn o rostir a choedwigoedd rhwng Cwm Einion a Nant y Moch.

Tueddiadau:

Yng Nghymru, ar ôl dirywiad yn y niferoedd ar ddechrau'r ganrif ddiwethaf, gwelwyd cynnydd o'r 1940au ymlaen, yn arbennig yng nghanolbarth a gogledd Cymru, wrth iddynt ymestyn i'r planhigfeydd conwydd ifanc. Fodd bynnag, dechreuodd eu niferoedd ostwng yn sydyn wrth i nifer o'r planhigfeydd aeddfedu yn ystod y 1980au a'r 1990au. Roedd y dirywiad yn ddramatig yng Ngheredigion lle, erbyn diwedd y 1990au, roedd y rhywogaeth wedi darfod i bob pwrpas yn y coedwigoedd deheuol gyda dim ond ychydig o adar ar ôl yng ngogledd y sir yn bennaf. Yn ystod yr arolwg

diwethaf a wnaed yn y sir ym 1988, dim ond 6 gwryw ac 1 iâr oedd yn y pedwar safle paru.

Statws Cadwraeth:

Rhyngwladol: CANOLIG.

Yn Ewrop, mae'r Grugieir Duon yn Rhywogaeth o Adar Gwasgaredig Rhyngwladol Categori 3 (dros dro) h.y. nid ydynt wedi'u canoli yn Ewrop ond mae eu statws cadwriaethol yn anffafriol.

Y Deyrnas Unedig:

Wedi'u cynnwys ymhlith Adar Data Coch ym Mhrydain. Nodwyd yn Strategaeth Gwarchod Adar RSPB yn un o'r 41 o rywogaethau dan fygythiad ym Mhrydain.

Statws –

Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth y Deyrnas Unedig:

Y Deyrnas Unedig:

Rhywogaeth â blaenoriaeth uchel y paratowyd Cynllun Gweithredu Cenedlaethol ar ei chyfer.

B. FFACTORAU SY'N EFFEITHIO AR Y RHYWOGAETH YNG NGHEREDIGION.

Colli cynefin:

Effeithiwyd ar y grugieir du drwy golli eu cynefin oherwydd:

- O ganlyniad i ddwysáu dulliau amaethu mae llai o blanhigion ar gael iddynt fel ffynhonnell o fwyd, yn arbennig grug a llusi duon bach (o ganlyniad i bori defaid a draenio llaciau gwlyb yn bennaf).
- Planhigfeydd conwydd yn aeddfedu. Er bod plannu coedwigoedd ar yr ucheldir wedi helpu'r grugieir du, daeth y cynefinoedd hyn, yn raddol, yn llai addas gyda'r planhigion a'r mannau nythu yn diflannu dan gysgod y coed yn aeddfedu.
- Diffyg dulliau sympathegig o reoli coedwigoedd a grug. Mae grugieir du yn ffynnu lle mae digon o le rhwng y coed wrth ymyl y goedwig a lle mae digonedd o fwyd, yn arbennig grug ifanc. Yn aml iawn, daw ymylon coedwigoedd i ben yn sydyn a bydd y coed oddi mewn wedi'u plannu'n agos iawn at ei gilydd gyda llecynnau bychan o rug heglog heb eu rheoli.
- Plannu heb fod yn sympathegig i'r ardal a draenio'r tir, yn arbennig ar y llaciau gwlyb a'r orgors. Golyga hyn fod llai o fannau ar gael ar gyfer porthiant.

Ysglyfaethu:

Mae niferoedd mawr o frain yn cael eu denu gan ddefaid yn cael eu stocio'n ddwys ynghyd â'r cynnydd yn niferoedd y llwynogod sy'n defnyddio planhigfeydd conwydd yn cael effaith andwyol ar y grugieir du.

Amharu:

Gall gwahanol weithgareddau yn amharu arnynt, naill yn ddamweiniol ar ffurf rali ceir, gwylwyr adar neu bobl yn cerdded â'u cw^n ayb, neu saethu ar dir wrth ymyl y llecynnau paru, gyfrannu at ddirywiad y rhywogaeth.

C. CAMAU GWEITHREDU SYDD AR Y GWEILL

Monitro ac arolygu:

Cynhaliwyd arolygon cenedlaethol (Cymru) ym 1986, 1992, 1995 a 1997. Gwnaed

arolygon pellach yn cyfrif nifer o safleoedd paru yng Ngheredigion ym 1996 a 1998 gan staff lleol RSPB a Menter Coedwigaeth. Bydd arolwg cenedlaethol pellach yn debygol o gael ei ailadrodd yn y flwyddyn 2001.

Rheoli tir:

Yng Nghoedwig Tarennig, mae Menter Coedwigaeth wedi teneuo'r pyrwydd Sitca er mwyn lledu'r llwybrau. Yn Niliw, cliriwyd y pyrwydd sitca a fethodd o'r cymunedau rhos, llaid a thyfiant. Cliriwyd coed llarwydd sitca a gafodd eu plannu'n ddwys gyda'i gilydd o ardaloedd o orgors yng Nghwm Einion ym Mwlich y Garreg a Chreigiau'r Llan.

Yn rhan o bartneriaeth Mynydd y Ffynnon, prosiect adfer rhostir ar y cyd rhwng RSPB, Cyngor Cefn Gwlad Cymru ac ADAS, mae llawer o waith wedi'i wneud er lles y grugieir du ar dir rhwng coedwigoedd Pwllpeiran a Myherin a Tharennig. Mae hyn yn cynnwys plannu coed llydanddail a llarwydd ar dir a gafodd ei wella, clirio pyrwydd sitca o gors Tynbryn, a rheoli'r broses o adfer grub.

Cyngor a chyswllt:

Sylw'r RSPB ar Gynlluniau Dylunio Coedwigoedd FE yngly^n â rhywogaethau allweddol o adar, yn arbennig grugieir du. Yng ngogledd Cymru mae'r RSPB yn rhan o ymdrechion cydweithredol i reoli safleoedd allweddol y grugieir du yn rhan o'r Prosiect i Adfer Grugieir Du. Golyga hyn staff coedwigoedd preifat, tiffeddianwyr preifat a staff FE. Cynhyrchwyd canllawiau rheoli gan Fudiad Gwarchod Helwriaeth a'r RSPB er mwyn rheoli'r grugieir du.

D. AMCAN A THARGEDAU

Amcan: atal y dirwyd presennol yn niferoedd y Grugieir Du yng Ngheredigion gyflawni'r'r targedau canlynol

- Cynnydd yn y boblogaeth gyfredol i 12 gwryw yn y safleoedd paru erbyn 2006 a 20 gwryw erbyn 2010.
- Cynnydd yn yr ystod ac ailsefydlu poblogaeth fridio ymarferol yn ne'r sir, yr ardal orau yn flaenorol ar gyfer y rhywogaeth.

Cyflwr Presennol:

Ystyrir bod y Grugieir Du yng Ngheredigion yn anffafriol/dirywio (ac mewn perygl o ddarfod yn gyfan gwbl).

E. CYNLLUN GWEITHREDU AMLINELLOL – Y GRUGIEIR DU

Partner Arweiniol: RSPB

	Camau gweithredu	Sefydliad
1	Polisi a Deddfwriaeth	
1.1	Sicrhau y caiff y cynefin ei ddiogelu a'i hyrwyddo drwy gyfrwng cynlluniau strategol perthnasol (e.e. y Cynllun Datblygu Unedol).	CSC, Pawb
1.2	Cynnwys gofynion ynglyn â chynefin Grugieir Du wrth bennu cynlluniau Tir Gofal a chynlluniau amgylchydol eraill pan gânt eu hadolygu.	CCGC, RSPB, AAMG

	Camau gweithredu	Sefydliad
1.3	Sicrhau mai'r lleiafswm yn unig a gollir o ran cynefinoedd ac y manteisir ar bob cyfle posib i adfer cynefinoedd mewn materion yn ymwneud â chynllunio, e.g. ffermydd gwynt.	CCGC, RSPB
2	Diogelu a Rheoli Safleoedd	
2.1	Llunio cofrestr o Safleoedd Paru Ceredigion ac yna blaenoriaethu eu rheolaeth o fewn radiws o 1.5km i safleoedd paru a ddefnyddiwyd yn ddiweddar.	RSPB, FE
2.2	Yn y safleoedd paru presennol, cyflwyno mesurau rheoli cynefinoedd priodol (gan gynnwys lleihau lefelau pori / adfer rhostiroedd / llaciau gwlyb ychwanegol / gwaredu coed conwydd o gynefinoedd tir gwlyb / teneuo ymylon coedwigoedd conwydd / rheoli grug).	CCGC, AAMG, FRCA, FE, FC, UCA, UAC, CLA.
2.3	Ystyried dulliau o reoli brain a llwynogod yn y safleoedd paru presennol er mwyn cael mwy o lwyddiant wrth fridio os yw'r dystiolaeth yn awgrymu bod yr adar yn cael eu dal yn ysglyfaeth.	FE, GCAA, UCA, UAC, CLA.
2.4	Sicrhau nad oes dim i amharu ar y safleoedd paru ac nad oes unrhyw saethu.	FE
2.5	Adfer ardaloedd lle mae yna gynefin addas o fewn yr ystod flaenorol er mwyn annog ymestyn y boblogaeth.	FE, FC, GCAA, CCGC, UCA, UAC, CLA, AAMG/CCGC(TG)
3	Monitro ac Ymchwil	
3.1	Monitro safleoedd paru bob blwyddyn gan ddechrau yn y flwyddyn 2001.	FE, RSPB
3.2	Cyfrif nifer y cywion bob blwyddyn yn y safleoedd paru presennol er mwyn sefydlu'r patrwm epilio.	FE
4	Cyfathrebu a Chyhoeddusrwydd	
4.1	Rhoi cyhoeddusrwydd i'r dirywiad difrifol yn nifer y grugieir du a chodi ymwybyddiaeth y cyhoedd o'r rhywogaeth.	RSPB, FE, UCA, UAC, CLA.
4.2	Sicrhau y rhoddir cyhoeddusrwydd i waharddiad gwirfoddol ar saethu grugieir du a sicrhau y cedwir ato.	FE, UCA, UAC, CLA.

F. GOFYNION O RAN ADNODDAU

Bydd angen adnoddau ychwanegol er mwyn datblygu a/neu weithredu'r pwyntiau canlynol:

2.2, 2.3, 2.5, 2.10, 3.2, 4.1.

Dyddiad: Paratowyd y Cynllun Gweithredu gan RSPB, Tachwedd 2000.

Cynllun Gweithredu Cynefinoedd: SGWARNOGOD BROWN (*Lepus europaus*)

A. RHAGARWEINIAD

Disgrifiad o'r cynefin:

Mae dwy wahanol rywogaeth o sgwarnogod ym Mhrydain ac mae'n debyg y cafodd y sgwarnogod brown eu cyflwyno gyntaf gan y Rhufeiniaid (sgwarnog y mynydd, *Lepus timidus* oedd yw'r ail). Mae'n anifail cymharol fawr (3-5kg), gyda blewyn hir, llwydfelyn neu rwd ei liw a blaen y clustiau'n ddu. Anifail y nos ydyw yn bennaf a bydd yn bwydo, caru a pharu i gyd yn y tywyllwch. Byddant yn treulio llawer o'r dydd yn gorffwys yn eu gwâl, pantiau bas sy'n rhoi lloches iddynt e.e. twmpathau o wair mewn caeau heb stoc. Ar adegau eraill byddant allan yn yr awyr agored pryd y bydd angen iddynt redeg yn gyflym. Gallant fynd ar gyflymdra o 70kmh.

Ystyrir y sgwarnogod brown yn rhywogaeth 'frith' sy'n defnyddio nifer o wahanol gynefinoedd drwy ecsbloetio'r ffynonellau bwyd sydd ar gael. Yn gyffredinol, mae angen gwlad agoed a llwyni gwasgaredig neu gloddiau arnynt fel gorchudd. Mae tiroedd gwlyb, coetiroedd cynhenid sy'n cael eu pori'n ysgafn, rhostiroedd a morfeydd heli hefyd yn fannau lle gwelwyd sgwarnogod brown yn achlysurol.

Eu dosbarthiad yn y Deyrnas Unedig:

Mae nifer y sgwarnogod brown ym Mhrydain, a fu ar un adeg yn niferus iawn, wedi gostwng yn sydyn ers dechrau'r 1960au. Mae rhaniad pendant rhwng y dwyrain a'r gorllewin yn eu dwysedd ar draws Prydain gyda mwy yn nwyrain y wlad. Yng Nghymru, y gred oedd bod y sgwarnogod brown ar led drwy'r sir ond bod dirywiad yn y wlad yn fuan wedi'r Ail Ryfel Byd.

Eu dosbarthiad yng Ngheredigion

Daeth llawer o'r data a gasglwyd am sgwarnogod brown yng Ngheredigion o arsylwadau gan gerddwyr a phobl leol. Awgryma cofnodion yn y Cofnod Mamaliaid Sirol fod sgwarnogod i'w gweld yng Ngheredigion o hyd ond fe'u gwelir fel arfer ar eu pen eu hunain ac yn weddol wasgaredig.

Tueddiadau:

O'r Arolwg Sgwarnogod Cenedlaethol a wnaed yn ystod gaeaf 1991/92 a 1992/93 amcangyfrifwyd bod poblogaeth o 817,500 o sgwarnogod oedd wedi cyrraedd eu llawn dwf, h.y., cyn y tymor bridio, ym Mhrydain Fawr, gan gynnwys 58,000 yng Nghymru. Fodd bynnag, casglwyd y ffigurau hyn yn union cyn y tymor didol a lladd felly mae'n bosib y bydd y ffigurau hyn yn annibynadwy (nid yw didol a lladd yn gyffredin yng Ngheredigion). Cynhaliwyd ail arolwg cenedlaethol yn ystod gaeaf 1997/98 a 1998/99 i ddarganfod union faint y boblogaeth ym Mhrydain. Amcangyfrifwyd, cyn y tymor bridio, bod yna 752,608 o sgwarnogod brown wedi cyrraedd eu llawn dwf. Awgrymwyd nad oedd unrhyw wahaniaeth sylweddol yn niferoedd y sgwarnogod brown o'i gymharu â'r arolwg blaenorol ond gwelwyd dirywiad mewn rhai ardaloedd tir âr.

Yng Ngheredigion, awgryma tystiolaeth anecdotaidd nad yw sgwarnogod i'w gweld mor fynych bellach ag oedden nhw 20 mlynedd yn ôl. Ni wnaed arolwg sirol y gellid amcangyfrif ar ei sail boblogaeth sylfaenol y sgwarnogod brown.

Statws Cadwraeth:

Mae'r sgwarnogod brown yn rhywogaeth sydd yn y Llyfr Data Coch ond ni chaiff ei

warchod gan y gyfraith ar wahân i rai cyfyngiadau ar eu hela yn ystod y tymor bridio (Mawrth 1af – Gorffennaf 31ain) o dan y Ddeddf Helwriaeth ar Dir (1880) a'r Ddeddf Gwarchod Sgwarnogod (1911). Mae cryn bryder ynglŷn â chadwraeth y rhywogaeth ac mae'n un o ddim ond naw rhywogaeth o famaliaid sy'n cael eu dosbarthu'n 'agored i niwed neu'n dirywio'n sydyn'.

Statws

Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth y Deyrnas Unedig:

Mae'r sgwarnogod brown yn rhywogaeth â blaenoriaeth uchel y paratowyd Cynllun Gweithredu Cenedlaethol ar ei chyfer.

B. FFACTORAU'N EFFEITHIO AR Y RHYWOGAETH YNG NGHEREDIGION

Arferion amaethyddol:

Mae dirywiad y sgwarnogod brown yng Ngheredigion yn cael ei gefnogi i raddau helaeth gan dystiolaeth anecdotaidd ond, os yw'n dilyn tueddiadau cenedlaethol, ymddengys ei fod yn cyd-daro â'r newidiadau mewn arferion amaethu. Fodd bynnag, nid wyddom yn iawn yr union fecanwaith sy'n gyfrifol am y dirywiad.

Gall yr arferion canlynol gael effaith ar y sgwarnogod brown yn y Sir:

- absenoldeb a / neu ddirywiad tirweddau â'r amrywiol a glaswelltir sydd heb ei drin neu wedi ei drin yn rhannol yng Ngheredigion a'r effaith ar ardaloedd porthiant addas.
- ymddengys fod sgwarnogod brown ar eu gwaethaf lle bo defaid, mae'n debyg oherwydd bod gan dir sy'n cael ei reoli i gynhyrchu w^yn ar raddfa fawr lai o botensial fel ffynhonnell o fwyd.
- gall nifer y safleoedd sydd ar gael i'r sgwarnogod orffwys yn ystod y dydd effeithio ar eu niferoedd hefyd. Mae'r da byw yn amharu ar y sgwarnogod ac yn cynyddu'r posibilrwydd y cânt eu dal yn ysglyfaeth.
- gall cynhyrchu silwair yn hytrach na gwair fod yn gyfrifol am nifer o golledion (yn arbennig llefrod) oherwydd y modd a phryd y caiff ei dorri.
- mae caeau sofr sydd heb eu haredig yn gynefin da ar gyfer sgwarnogod brown a bydd yr arfer o aredig y sofr yn y gaeaf yn golygu y bydd llai o fwyd ar gael iddynt.
- gall chwistrellu bioleiddiaid gael effaith andwyol hefyd ar sgwarnogod brown gan y caiff ei wneud pan fydd y sgwarnogod leiaf actif. Gwelwyd bod perthynas agos rhwng nodweddion llinellol, megis gwrychoedd a llinellau coed, a phresenoldeb sgwarnod a gall rheoli'r nodweddion hynny'n wael arwain at golli'r lloches sydd ei angen ar y sgwarnogod.

Effaith dyn:

Cânt eu saethu i ryw raddau yng Ngheredigion ond ni wyddom i ba raddau y digwydd na'i effaith ar niferoedd y sgwarnogod.

Clefydau:

Cafodd y Clefyd Gwaedlifol Feirol (Viral Haemorrhagic Disease - VHD) ymhlith cwningod ei gysylltu â'r clefyd feirol sydd wedi taro sgwarnogod brown mewn rhannau eraill o Ewrop (Flax & Chapman, 1991). Ni wyddys os bu gan y clefyd ran sylweddol i'w chwarae yn nirywiad y sgwarnogod brown yng Ngheredigion.

Cemegau:

Dechreuodd astudiaethau diweddar asesu effaith ffyto-oestrogenau mewn planhigion, meillion a chodlysiau yn arbennig, a'u heffaith ar ffrwythlondeb y sgwarnogod.

C. CAMAU GWEITHREDU SYDD AR Y GWEILL

Monitro ac arolygu:

Cynhaliwyd Arolygon Cenedlaethol ar Sgwarnogod yn 1991-93 a 1997-99 (gan Brifysgol Bryste ar ran y JNCC). Yn ogystal ag asesu poblogaethau'r sgwarnogod brown, roedd yr arolwg hefyd yn edrych ar effaith polisiau rheoli tir (gan gynnwys cynlluniau amaeth-amgylcheddol).

Rheoli Tir:

Bydd cynlluniau amaeth-amgylcheddol megis Tir Gofal yn gyfle i greu neu hyrwyddo cynefinoedd ar gyfer sgwarnogod brown. Lle bo modd, bydd ffermio â'r yn cael ei ailgyflwyno i ardaloedd blaenorol ac anogir ail-greu glaswelltir sydd wedi eu trin yn rhannol. Gall amrywio'r defnydd tir drwy gyfrwng rhai opsiynau â'r yn y cynllun fod yn gyfle i greu safleoedd porthiant addas ar gyfer y sgwarnogod brown, megis:

- cadw sofr grawngnydau, rêp a had llin gydol y gaeaf;
- hau grawngnydau yn y gwanwyn gyda glaswellt a chodlysiau oddi tanynt;
- sefydlu gwreiddgnydau heb eu chwistrellu gyda phori yn ystod y gaeaf i ddilyn.

Mae'r cynllun hefyd yn rhoi tâl am adfer a rheoli gwrychoedd. Rhoddant loches a gorchudd i sgwarnogod brown. Mae perthynas agos hefyd rhwng dwysedd isel stoc defaid a niferoedd sgwarnogod brown oherwydd nad oes cynifer o ddefaid i amharu ar y safleoedd gorffwys.

D. AMCANION A THARGEDAU

Amcan: creu'r amodau lle bo'r cyflwr o safbwynt cadwraeth yn ffafriol gan gyflawni'r targedau canlynol

- Cyfrif niferoedd y sgwarnogod brown a chynnal y poblogaethau presennol o leiaf (yr amser i'w bennu yn ddiweddarach).
- Ymestyn poblogaeth y sgwarnogod brown (y targed i'w osod yn ddiweddarach).

Cyflwr Presennol:

Ni wyddys yn union beth yw sefyllfa'r sgwarnogod brown yng Ngheredigion ond mae'n debyg ei bod yn anffafriol/dirywio.

E. CYNLLUN GWEITHREDU AMLINELLOL

Partner Arweiniol: Ymddiriedolaeth Bywyd Gwylt De a Gorllewin Cymru

	Camau gweithredu	Sefydliad
1	Polisi a Deddfwriaeth	
1.1	Sicrhau y caiff y cynefin ei ddiogelu a'i hyrwyddo drwy gyfrwng cynlluniau strategol perthnasol (e.e. y Cynllun Datblygu Unedol).	CSC, Pawb
1.2	Cymryd i ystyriaeth ofynion y sgwarnogod brown o safbwynt eu cynefin wrth asesu'r dulliau rheoli tir o dan y cynlluniau Amaeth-amgylcheddol	CCGC, AAMG

	Camau gweithredu	Sefydliad
1.3	Ystyried yr angen i roi mwy o ddiogelwch cyfreithiol i sgwarnogod, yn arbennig o ran eu herwheila neu eu hela y tu allan i'r tymor bridio.	CCGC, YBGGC.
2	Diogelu a Rheoli Safleoedd	
2.1	Hyrwyddo dulliau o reoli tir, lle bo'n briodol, sy'n sympathetig i sgwarnogod brown.	UAC, UCA, CLA, CCGC, AAMG
2.2	Annog cymryd rhan mewn cynlluniau amaeth-amgylcheddol a all gynyddu'r tir sy'n addas ar gyfer sgwarnogod brown.	UAC, UCA, CLA, CCGC, AAMG, AAMG/CCGC(TG)
2.3	Hyrwyddo adfer cynefin addas ger neu o fewn ardaloedd blaenorol er mwyn ymestyn y boblogaeth bresennol.	UAC, UCA, CLA, CCGC, AAMG, AAMG/CCGC(TG)
3	Monitro ac Ymchwil	
3.1	Annog gwneud ymchwil ar effeithiau dulliau amaethu modern, clefydau a hela ar boblogaethau'r sgwarnogod brown.	CCGC, YBGGC.
3.2	Pennu dosbarthiad a phoblogaeth niferoedd sgwarnogod brown yn y Gwanwyn yng Ngheredigion.	CCGC, YBGGC
3.3	Monitro poblogaethau sy'n hysbys	CCGC, YBGGC.
4	Cyfathrebu a Chyhoeddusrwydd	
4.1	Annog tirlfeddianwyr a chyrrff cyhoeddus i fod yn fwy ymwybodol o statws y sgwarnogod brown a'u gofynion o ran eu cynefin.	CCGC, YBGGC, UCA, UAC, CLA.
4.2	Annog cofnodi niferoedd y sgwarnogod brown a welwyd yn y Cofnod ar Famaliaid er mwyn cadw cofnod o'u dosbarthiad a'u poblogaeth.	CCGC, YBGGC, UCA, UAC, CLA.
4.3	Defnyddio'r sgwarnogod brown fel 'rhywogaeth arbennig' er mwyn tynnu sylw at fanteision potensial rheoli dulliau amaethu mewn dull sensitif.	CCGC, YBGGC, UCA, UAC, CLA.

F. GOFYNION O RAN ADNODDAU

Bydd angen adnoddau ychwanegol er mwyn datblygu a/neu weithredu'r pwyntiau canlynol:

2.1, 3.1, 3.2, 3.3.

Dyddiad:

Paratowyd y Cynllun Gweithredu gan Lisa Connaire, Tachwedd 2000.

Cynllun Gweithredu Cynefinoedd: BRAIN COESGOCH (*Pyrrhocorax pyrrhocorax*)

A. RHAGARWEINIAD

Disgrifiad o'r cynefin:

Mae'r frân goesgoch yn aderyn canolig ei faint sy'n ddu ac yn sgleiniog ei liw, â phig goch atblygedig hir a thenau a choesau coch amlwg. Pan fydd yn hedfan gellir gweld ei adenydd llydan, sgwâr â siâp pendant megis bysedd ar flaenau'r adenydd. Mae'n feistrolgar ac yn acrobataidd wrth hedfan a bydd yn aml yn plymio, yn dringo ac yn gwneud aerobatics. Mae'n rhywogaeth sy'n heidio at ei gilydd ac fe'i gwelir yn aml mewn heidiau o hyd at 50 o adar neu ragor.

Mae brain coesgoch yn aml yn bwydo ar larfâu ac oedolion chwilod, pryfed, morgrug a phryfed teiliwr. Cânt afael arnynt o fannau lle gallant fynd at y pridd yn weddol hawdd, e.e. borfa wedi'i thorri'n gwta oherwydd anifeiliaid yn pori neu oherwydd effaith y gwynt / y môr neu ei leoliad rhwng y pridd a'r graig. Ymhlith ffynonellau eraill o fwyd a gofnodwyd yn eu diet mae grawn, cramenogion, molysgiaid a larfâu gwyfynod.

Eu dosbarthiad yn Ewrop/Y Deyrnas Unedig:

Maent wedi eu dosbarthu yn ardal y Palearctig a gogledd ddwyrain Ethiopia. Mae'n ymestyn o Palma yn yr Ynysoedd Dedwydd drwodd i dde Ewrop i ganol Asia a China.

Ym Mhrydain, mae eu dosbarthiad ar hyd yr arfordir er eu bod wedi'u cyfyngu i arfordir y gorllewin (fel arfer mewn ardaloedd lle nad yw niferoedd y da byw yn ddwys iawn). Gwelir y frân goesgoch mor bell i'r de â Phenrhyn Gw^yr ac mor uchel ag ynysoedd Islay, Colonsay a Mull a'u cyrchfan fwyaf gogleddol yn y Palearctig. Yng Nghymru, ceir y Frân Goesgoch ar laswelltir sy'n cael ei bori gan ddefaid a gwartheg yn bennaf, rhostiroedd ar lan y môr neu ar wynebau clogwyni. Maent hefyd yn defnyddio 'cloddiau' (terfynau a godwyd i wahanu caeau), llaciau twyni a chaeau sofrl. Mae oddeutu 73% o holl boblogaeth y frân goesgoch yn y Deyrnas Unedig yng Nghymru.

Niferoedd Uchaf o barau bridio'r Frân Goesgoch yn y Deyrnas Unedig ym 1998. (RSPB Cymru Strategaeth Gwarchod y Frân Goesgoch)

Cymru	180	Parau
Yr Alban	66	
Ynys Manaw	88	
Gogledd Iwerddon	2	
Cyfanswm	336	

Eu dosbarthiad yng Ngheredigion:

Yng Ngheredigion bu cynnydd araf yn y niferoedd sy'n bridio ar hyd yr arfordir, yn gysylltiedig â'r safleoedd nythu artiffisial a ddarparwyd. Gellir disgrifio eu cyflwr fel ffafriol/yn cael eu cynnal (oddi ar yr arfordir lle bu dirywiad sydyn fe'i disgrifid yn anffafriol/yn dirywio).

Tueddiadau:

Ym Mhrydain bu dirywiad yn niferoedd y parau sy'n bridio a'u hystod ers canol y 18fed ganrif. Ers hynny mae poblogaethau wedi diflannu o arfordir de Lloegr, Ynysoedd y Sianel, arfordir gogledd Lloegr a thir mawr yr Alban ac Ynysoedd Heledd Allanol. Nid oes gwybodaeth ar gael ar gyfer y boblogaeth yng Ngweriniaeth Iwerddon, er y canfuwyd 904 o barau yn ystod yr arolwg yn 1992. Yn ystod y blynoedd diwethaf bu dirywiad yn y niferoedd sy'n bridio ar Islay, un o gadarnleoedd y rhywogaeth gynt. Mae'r boblogaeth sy'n bridio yng Nghymru, sef oddeutu 170 o barau ar hyn o bryd, yn debyg o fod yn sefydlog gyda'r cynnydd mewn rhai ardaloedd ar hyd yr arfordir yn gwneud iawn am y dirywiad oddi ar yr arfordir yng nghanolbarth Cymru. Yng Ngheredigion, oherwydd y dirywiad yn y nifer sy'n bridio oddi ar yr arfordir dim ond un pâr sydd yno'n bridio ar hyn o bryd. Mae tua 22 o barau yn nythu yng Ngheredigion ar hyn o bryd ac mae'u cadarnleoedd ar hyd yr arfordir rhwng Llanrhystud a'r Borth a rhwng Ceinewydd a Llangrannog.

Statws Cadwraeth:

Rhyngwladol: Yn Ewrop, mae'n Rhywogaeth o Adar Gwasgaredig Rhyngwladol Categori 3 h.y. nid ydynt wedi'u canoli yn Ewrop ond mae eu statws cadwraethol yn anffafriol.

Y Deyrnas Unedig:

Wedi'u cynnwys yn y Llyfr Data Coch. Fe'i rhestrwyd yn rhywogaeth ambr ymhlith adar sy'n achosi pryder o ran eu gwarchod.

Statws –

Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth y Deyrnas Unedig:
Rhywogaeth ambr ymhlith adar sy'n achosi pryder o ran eu gwarchod.

B. FFACTORAU SY'N EFFEITHIO AR Y RHYWOGAETH YNG NGHEREDIGION.

Maint ac ansawdd y cynefinoedd bwydo:

Mae dwysáu dulliau amaethu mewn rhai ardaloedd ynghyd â pheidio â phori mewn eraill wedi arwain at leihau nifer yr ardaloedd addas sydd ar gael ar gyfer porthiant.

Safleoedd nythu sydd ar gael:

Mae angen safleoedd nythu addas ger safleoedd porthiant addas ar frain coesgoch sy'n bridio. Mae llawer o'r arfordir yn graig feddal ac nid oes llawer o safleoedd nythu addas ar eu hyd. Mae safleoedd oddi ar yr arfordir, fel arfer hen chwareli neu siafftau cloddfeydd, wedi'u gorchuddio gan lystyfiant gyda choedwigoedd dwys o'u hamgylch neu wedi'u gorchuddio oherwydd lechyd a Diogelwch. Mae'n bosib y bydd rhai parau arfordirol yn ddibynnol ar safleoedd artiffisial y bydd angen eu cynnal a'u cadw.

Ffactorau hinsoddol:

Gall gaeafau oer iawn neu hafau sych iawn ei gwneud hi'n anodd iddynt gael porthiant a gall hyn arwain at nifer o farwolaethau, yn arbennig ymhlith yr ifanc.

Ysglyfaeth:

Gall cael eu dal gan y cudyll glas neu adar ysglyfaethus eraill fod yn ffactor posib arall a fydd wedi arwain at ddirywiad y brain coesgoch. Gall fod yn ffactor yn y dirywiad diweddar yn nifer y parau bridio yng Ngheredigion a'r ffaith i nifer o safleoedd clwydo gael eu gadael yn wag.

Aflonyddwch gan ddyn:

Mae llawer o'r safleoedd bridio a chlwydo presennol yn cael eu haflonyddu gan nifer cynyddol o'r cyhoedd, yn arbennig cerddwyr a dringwyr, a gall hyn fod wedi cyfrannu at ddirywiad y rhywogaeth mewn rhai ardaloedd.

Erledigaeth gan ddyn:

Mae'n bosib y bydd y frân goesgoch yn dioddef o erledigaeth, a anelir fel arfer at frain yn gyffredinol, yn hytrach na'r frân goesgoch ei hun. Er bod wyau'n dal i gael eu casglu yng Nghymru dengys tystiolaeth yn ddiweddar fod problem yng Ngheredigion.

Cemegau rheoli stoc:

Gall defnyddio rhai cemegau, Avermectins yn arbennig, fod yn fygythiad gwirioneddol i frain coesgoch a nifer o adar eraill oherwydd y gostyngiad yn yr infertebratau mewn tail.

Clefydau:

Llyngyr y big: Gwelwyd presenoldeb Syngamus trachea mewn brain coesgoch gwyllt a rhai caeth. Mae'r frân goesgoch yn agored i'r clefyd yma gan fod infertebratau pridd yn rhan o gylch bywyd llyngyr y big, sef prif ffynhonnell bwyd y frân goesgoch.

C. CAMAU GWEITHREDU SYDD AR Y GWEILL**Monitro ac Arolygu:**

Casglwyd data ar niferoedd y brain coesgoch sy'n bridio ers 1963 pan oedd 9 pâr yn nythu ar hyd yr arfordir. Wedi hynny, casglwyd gwybodaeth rai blynyddoedd rhwng 1969 (15 pâr) a 1983 (14 pâr ar yr arfordir a 4 oddi ar yr arfordir). Ym 1991, dechreuwyd ar brosiect tymor hir o roi modrwyau lliw arnynt er mwyn ymchwilio i batrymau gwasgaru rhai ifanc a'u symudiadau yn ystod y tymor. Ym 1992, dechreuodd A. Cross a H. Roderick ar raglen o ddilyn parau bridio. Ym 1993 cynhaliwyd arolwg ar ran Cyngor Cefn Gwlad Cymru o'r holl safleoedd nythu potensial yn y sir. Cyfrifwyd dau safle clwydo yng ngogledd y sir, yn Wallog ac Allt-wen, yn ystod y gaeaf yn fisol neu unwaith bob deufis ers 1996.

Rhannwyd yr arfordir yn y gaeaf mewn gwahanol rannau rhwng 1994 a 1997 er mwyn mapio'r safleoedd bwydo. Cynhaliwyd arolygon ychwanegol ddwywaith y flwyddyn, ym mis Medi a mis Chwefror, rhwng 1995 a 1997 er mwyn asesu poblogaeth y gaeaf. Cwtogwyd hyn i un cyfrifiad y flwyddyn ym mis Medi o 1998 ymlaen.

Rheoli Tir:

Ym Mhenygraig a Craig Cae'r Llan ger Cwmttydu mae'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol wedi caniatáu i ferlod bori ar y glaswelltir ar hyd yr arfordir. Gwnaed hyn yn bennaf er mwyn gostwng uchder y twmpathau er lles y brain coesgoch sy'n bwydo yno.

Blychau nythu:

Sefydlwyd oddeutu 25 o safleoedd artiffisial mewn safleoedd nythu ar hyd yr arfordir ac oddi ar yr arfordir gan A. Cross ym 1992 a 1993. Erbyn 1996, câi 8 safle artiffisial eu defnyddio gan frain coesgoch ar safleoedd arfordirol ac mae'n debyg y gallai'r boblogaeth fridio yng Ngheredigion cael ei hymestyn ymhellach drwy ddarparu mwy o safleoedd artiffisial mewn safleoedd addas.

Cyngor a chyswilt:

Mae'r RSPB wedi gwneud sylwadau am geisiadau am y Cynllun Cynefin lle bo ardaloedd sy'n cael eu defnyddio gan y frân goesgoch yn cael eu rheoli. Mae'r RSPB yn y camau cyntaf o ddatblygu rheoli ardaloedd allweddol y frân goesgoch yn gydweithredol o dan y Prosiect Adfer Cynefinoedd y Brain Coesgoch yng Nghymru. Cynhyrchwyd canllawiau rheoli gan yr RSPB.

D. AMCAN A THARGEDAU

Amcan: cynnal ac ymestyn nifer y Brain Coesgoch, gan gyflawni'r targedau canlynol:

- Yn y tymor byr, cynnal y boblogaeth gyfredol a'i hystod.
- Cynyddu'r boblogaeth yng Ngheredigion i 30 pâr erbyn 2011, gydag o leiaf 2 bâr oddi ar yr arfordir.

Cyflwr Presennol:

Mae'r Frân Goesgoch yng Ngheredigion yn ffafriol / yn cael ei chynnal (ar hyd yr arfordir).

E. CYNLLUN GWEITHREDU AMLINELLLOL

Partner Arweiniol: RSPB

	Camau Gweithredu	Sefydliad
1	Polisi a Deddfwriaeth	
1.1	Sicrhau y caiff y cynefin ei ddiogelu a'i hyrwyddo drwy gyfrwng cynlluniau strategol perthnasol (e.e. y Cynllun Datblygu Unedol).	CSC, Pawb
1.2	Cymryd i ystyriaeth ofynion y frân goesgoch o safbwynt ei chynefin wrth asesu'r dulliau rheoli tir o dan y cynlluniau Tir Gofal a chynlluniau amaeth-amgylcheddol eraill.	CCGC, RSPB, AAMG
1.3	Sicrhau mai'r lleiafswm yn unig a gollir o ran cynefinoedd ac y manteisir ar bob cyfle posib i adfer cynefinoedd mewn materion yn ymwneud â chynllunio.	RSPB, CCGC
2	Diogelu a Rheoli Safleoedd	
2.1	Cynhyrchu rhestr o 'Ardaloedd Allweddol y Frân Goesgoch' a safleoedd pwysig o fewn yr 'ardaloedd' hynny lle bo angen blaenoriaethu'r camau gweithredu.	RSPB
2.2	Adfer glaswelltir a rhostir fel ardaloedd porthiant.	RSPB, NT, YBGGC, UCA, UAC, CLA, AAMG/CCGC(TG)

	Camau Gweithredu	Sefydliad
2.3	Cynnal safleoedd sy'n bod ac ystyried darparu safleoedd nythu artiffisial ychwanegol.	RSPB, YBGGC
2.4	Sicrhau bod gorchmynion ar gyfer y frân goesgoch yn cael eu cynnwys mewn cynlluniau rheoli gwarchodfeydd natur arfordirol.	RSPB, NT, WT, UCA, UAC, CLA, AAMG/CCGC(TG)
2.5	Annog lleihau'r defnydd a wneir o Avermectins a chemegau eraill ar dda byw a fydd yn pori ar gaeau arfordirol.	RSPB, CCGC, NT, UCA, UAC, CLA.
2.6.	Hybu'r arfer o roi sofr grawngnydau gaeaf ar gaeau priodol ar hyd yr arfordir.	RSPB, CCGC, UCA, UAC, CLA, AAMG/CCGC(TG)
3	Monitro ac Ymchwil	
3.1	Annog monitro'n flynyddol y niferoedd a fydd yn cael eu geni mewn safleoedd bridio.	RSPB
3.2	Annog parhau â'r rhaglen o roi modrwyau lliw ar adar.	RSPB
3.3.	Cynnal arolwg o'r ardaloedd ar hyd arfordir y de i ddarganfod y safleoedd clwydo.	RSPB, CSC
3.4	Cyfrif ddwywaith y flwyddyn mewn safleoedd ar hyd yr arfordir er mwyn asesu niferoedd y brain coesgoch a chasglu data am y modrwyau lliw.	RSPB, CSC
3.5.	Cyfrif yn rheolaidd y nifer sy'n clwydo yn y prif safleoedd clwydo.	RSPB, CSC
4	Cyfathrebu a Chyhoedduswydd	
4.1	Sicrhau bod tiffeddianwyr yn ymwybodol o'r frân goesgoch a'i gofynion o ran ei chynefin	RSPB, CCGC, YBGGC, CSC, UCA, UAC, CLA.
4.2	Codi proffil y frân goesgoch yng Ngheredigion (gan gynnwys ei defnyddio fel 'rhywogaeth arbennig')	RSPB, CCGC, YBGGC, CSC, UCA, UAC, CLA.

F. GOFYNION O RAN ADNODDAU

Bydd angen adnoddau ychwanegol er mwyn datblygu a/neu weithredu'r pwyntiau canlynol:

2.2, 2.3, 2.5, 2.6, 3.1, 3.2, 3.3, 4.2.

Dyddiad:

Paratowyd y Cynllun Gweithredu gan RSPB, Tachwedd 2000.

Cynllun Gweithredu Cynefinoedd: PRYFED CACYNAIDD (*Asilus crabroniformis*)

A. RHAGARWEINIAD

Disgrifiad o'r cynefin:

Mae'r pryf cacynaidd yn bryf ysglyfaethus mawr ag abdomen melyn sydd i'w weld yn bennaf mewn glaswelltir heb ei drin a rhostir yn ne Lloegr a Chymru gan fwydo'n bennaf ar sioncod y gwair a chwilod y dom. Mae'n tueddu i ddefnyddio tir sy'n cael ei bori gan wartheg neu geffylau ond nid defaid. Mae cysylltiad cryf rhwng tail sych gwartheg a cheffylau ond ni wyddys y rheswm am yr ymddygiad yma (Cox 1999). Credir bod larfâu'r pryfed cacynaidd yn ymosod ar larfâu chwilod y dom ac yn arbennig chwilod y baw (Cox 1999).

Eu dosbarthiad yn y Deyrnas Unedig:

Ers 1970 fe'i cofnodwyd mewn tua deugain o sgwariau 10km yn ne Prydain. Yng Nghymru roedd yno 23 o sgwariau 10km ar ôl 1980 ar gyfer y pryf cacynaidd ond dim ond mewn pump y cyrifwyd dros 10 o oedolion.

Eu dosbarthiad yng Ngheredigion:

Cofnodwyd y pryf cacynaidd mewn niferoedd bychan, llai na 10, ym mhob un o'r tri safle yng Ngheredigion ers 1995:

- Mewn Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig ger Castellnewydd Emlyn a gafodd ei fonitro o bryd i'w gilydd gan Gyngor Cefn Gwlad Gorllewin Cymru (CCGC) rhwng 1983 -1999 cofnodwyd 9 oedolyn.
- Mae safle a ddarganfuwyd yn fwy diweddar (1998) yn Llanilar, yn cael ei gadw'n sympathetig gan y perchennog
- Yn Aberystwyth, cofnodwyd un enghraifft yn 1999, ac y mae'n ddarpar Safle Bywyd Gwyllt.

Tueddiadau:

Mae'r pryf cacynaidd wedi dirywio'n sylweddol yn ystod y degawdau diweddar, yn arbennig drwy gollu cynefinoedd a newidiadau mewn hwsmonaeth anifeiliaid. Credir bod dwy o'r poblogaethau blaenorol (cyn 1995) yn ne'r sir wedi darfu bellach. Er eu bod yn brin iawn, mae'n debyg nad ydyw'r cyfan ohonynt wedi'u cofnodi ac mae'n bosib bod safleoedd eraill ohonynt yn y sir.

Statws cadwraethol:

Mae'r rhywogaeth wedi'i chofnodi'n Rhywogaeth Nodedig ar lefel genedlaethol.

Statws – Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth y Deyrnas Unedig:

Uchel: mae'r pryf cacynaidd yn rhywogaeth y rhoddir blaenoriaeth iddi a pharatowyd cynllun gweithredu cenedlaethol ar ei gyfer.

B. FFACTORAU SY'N EFFEITHIO AR Y RHYWOGAETH YNG NGHHEREDIGION

Defnyddio pleiddiaid

Y defnydd a wneir o afermectinau neu ddulliau tebyg o drin da byw sy'n effeithio nid yn unig ar larfâu chwilod y dom, ond hefyd yn atal dadfeiliad tail.

Newidiadau mewn arferion amaethyddol

Newidiadau mewn arferion rheoli stoc, megis newid o bori ceffylau neu wartheg i ddefaid.

C. CAMAU GWEITHREDU SYDD AR Y GWEILL

Monitro ac Arolygu:

Arolygon o safleoedd sy'n hysbys ac a wneir gan staff Cyngor Cefn Gwlad Cymru neu naturiaethwyr lleol, fel arfer ar hap.

D. AMCAN A THARGEDAU

Amcan: amddiffyn a chynyddu poblogaethau'r pryf cacynaidd yng Ngheredigion gan gyflawni'r targed a ganlyn:

- Cynyddu ystod y pryfed cacynaidd yng Ngheredigion drwy ddyblu nifer y safleoedd erbyn 2011.

Cyflwr Presennol:

Ystyrir bod statws y pryf cacynaidd yn anffafriol / yn dirywio yng Ngheredigion.

E. CYNLLUN GWEITHREDU AMLINELLOL

Partner Arweiniol: Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Gorllewin Cymru

	Camau Gweithredu	Sefydliad
1	Polisi a Deddfwriaeth	
1.1	Sicrhau y caiff y cynefi ei ddiogelu a'i hyrwyddo drwy gyfrwng cynlluniau strategol perthnasol (e.e. y Cynllun Datblygu Unedol).	CSC, Pawb
1.2	Annog defnyddio mecanweithiau sy'n lleihau dibyniaeth ar afermectinau mewn hwsmonaeth anifeiliaid	CCGC, CLA, UAC, UCA, YBGCC
2	Diogelu a Rheoli Safleoedd	
21	Hybu rheoli'r holl Safleoedd oDiddordeb Gwyddonol Arbennig lle bo'r rhywogaeth wedi'i chofnodi yn ffafriol.	CCGC
2.2	Annog eu rheoli'n briodol, yn arbennig drwy gynllun Tir Gofal, a phobl safle arall lle cofnodwyd y rhywogaeth.	CCGC, YBGCC, AAMG, AAMG/CCGC(TG)
3	Monitro ac Ymchwil	
3.1	Monitro safleoedd y pryf cacynaidd yn rheolaidd	CCGC, YBGCC
3.2	Gwneud gwaith arolygu pellach:	CCGC, YBGCC
3.3	Ar y cyd ag ymchwil cenedlaethol, ystyried mesurau priodol i ddiogelu'r pryf cacynaidd.	CCGC, YBGCC
4	Cyfathrebu a Chyhoeddusrwydd	
4.1	Rhoi cyngor i dirfeddianwyr/rheolwyr stoc ar arferion eraill o gael gwared â llyngyr a rheoli stoc.	UCA, UAC, CLA, CCGC, YBGCC, AAMG.
4.2	Defnyddio'r pryf cacynaidd i dynnu sylw at y bygythiad sy'n wynebu'r holl bryfed sy'n gysylltiedig â thail anifeiliaid domestig.	CCGC, CLA, UAC, UCA, YBGCC

F. GOFYNION O RAN ADNODDAU

Bydd angen adnoddau ychwanegol er mwyn datblygu a/neu weithredu'r pwyntiau canlynol:

2.1, 2.2, 3.1, 3.2.

Dyddiad:

Paratowyd y Cynllun Gweithredu gan Ymddiriedolaeth Bywyd Gwylt De a Gorllewin Cymru, Rhagfyr 2000.